

Adolygiad o ddull CNC o reoleiddio saethu a dal adar gwylt:

Ein penderfyniadau ynghylch trwyddedau cyffredinol

Ebrill 2022

Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Cynnwys

Cynnwys	3
Rhestr o fyrfoddau	4
Cyflwyniad	5
Ein dull cyffredinol o ddyroddi trwyddedau cyffredinol	6
Sut mae trwyddedau cyffredinol yn cael eu defnyddio	11
Rhywogaethau targed ar drwyddedau cyffredinol	15
Trwyddedau cyffredinol a safleoedd gwarchoddedig	20
Dulliau a ddefnyddir ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt	22
Defnyddio maglau cawell i reoli adar gwyllt	26
Trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion atal difrod difrifol neu ledaenu clefydau i dda byw, i fwydydd da byw, i gnydau, i lysiau neu i ffrwythau	35
Trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddiben cadwraeth adar gwyllt, planhigion neu anifeiliaid	39
Trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd, diogelwch y cyhoedd a diogelwch yr aer	47
Trwyddedu rheolaeth farwol ar rywogaethau o adar gwyllt estron goresgynnol	50
Agweddau eraill a godwyd yn yr ymgynghoriad	52
Llyfryddiaeth	53
Atodiad 1. Egwyddorion ar gyfer penderfynu pryd mae trwyddedau cyffredinol yn briodol	54
Atodiad 2. Safleoedd gwarchoddedig lle nad yw'r trwyddedau cyffredinol yn berthnasol	56
Atodiad 3. Matrics rhywogaethau a diben ar gyfer y drwydded gyffredinol ar gyfer difrod difrifol	60
Atodiad 4. Egwyddorion ar gyfer trwyddedu cadwraeth	61
Atodiad 5. Rhywogaethau sydd, yn ein barn ni, yn agored i gael eu hysglyfaethu gan frain tyddyn yng Nghymru	64

Rhestr o fyrfoddau

APHA	Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
BTO	Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
GL	Trwydded Gyffredinol
IUCN	Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur
Y Ddeddf	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Cyflwyniad

Mae gan holl adar gwyllt Cymru warchodaeth gyfreithiol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o bwerau i awdurdodi eraill i ladd neu gymryd rhywogaethau penodol o adar gwyllt, wyau a nythod at ddibenion penodol, er enghraifft er mwyn atal niwed difrifol i gnydau, da byw neu bysgodfeydd, i warchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu i warchod rhywogaethau eraill o fywyd gwyllt.

Rydym wedi bod yn cynnal adolygiad o sut rydym yn arfer y pwerau hyn. Mae'r adolygiad wedi bod yn ystyried y mathau gwahanol o ganiatadau rydym yn eu cynnig a'r prosesau a ddefnyddir i gyflawni'r gweithgareddau hyn i geisio gwneud gwelliannau.

Mae'r adolygiad wedi cynnwys galwad am dystiolaeth (Rhagfyr 2020 i Ionawr 2021), comisiynu nifer o adroddiadau technegol i fynd i'r afael â gofynion dystiolaeth allweddol, cyfres o sesiynau ymgysylltu anffurfiol gydag amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu ein ffordd o feddwl a'r broses o lunio cynigion manwl a rhesymeg ategol.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan allweddol o'r adolygiad. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos o 19 Awst 2021 tan 11 Tachwedd 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion o ran y dull y byddai CNC yn ei ddefnyddio i reoleiddio saethu a dal adar gwyllt yng Nghymru a dinistrio wyau a nythod. Roedd yn gofyn cyfres o gwestiynau am ystod o gynigion penodol, ynghyd â nifer o gwestiynau mwy agored. Roedd y cynigion a'r cwestiynau wedi'u nodi mewn papur ymgynghori manwl a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir a dolenni i ddogfennau perthnasol eraill.

Cawsom 621 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan unigolion preifat a sefydliadau sy'n cynrychioli amrediad eang o fuddiannau ac yn mynegi ystod eang o safbwyntiau ar sut y dylai CNC reoleiddio rheolaeth farwol adar gwyllt. Mae'r papur ymgynghori ac adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd â dogfennau perthnasol eraill, ar gael [YMA](#).

Diben yr adroddiad hwn

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud ynghylch trwyddedau cyffredinol ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt, ac mae'n mynd i'r afael â'r holl gynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt sy'n ymwneud â'r trwyddedau hynny.

Bydd ein penderfyniadau ynghylch trwyddedau penodol ac ynghylch rheolaeth farwol adar sy'n bwyta pysgod yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân.

Ein dull cyffredinol o ddyroddi trwyddedau cyffredinol

Crynodeb

- Byddwn yn cadw trwyddedau cyffredinol fel rhan o'n pecyn adnoddau rheoleiddio.
- Bydd ein dull o ddyroddi trwyddedau cyffredinol yn cael ei arwain gan gyfres o egwyddorion lefel uchel ar gyfer penderfynu ym mha sefyllfaoedd y mae trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol adar gwyllt yn briodol, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol gwneud cais am drwyddedau penodol, fel yn yr achosion canlynol er enghraifft:
 - pan fo angen amlwg a gwirioneddol i reoli rhywogaeth A at ddiben B
 - pan fo disgwyliad rhesymol y bydd rheolaeth farwol rhywogaeth A yn effeithiol wrth fynd i'r afael â diben B
 - pan nad oes unrhyw atebion boddhaol heblaw dyroddi trwydded gyffredinol
 - pan fo trwydded gyffredinol yn fesur cymesur, o ystyried amlder / graddfa / difrifoldeb y broblem neu'r angen
 - pan na fydd cynnwys rhywogaeth darged ar drwydded gyffredinol yn bygwth ei statws cadwraethol ei hun
 - pan na fydd camau a awdurdodir gan drwydded gyffredinol yn bygwth statws cadwraethol unrhyw rywogaeth heblaw am y rhywogaethau targed
 - pan ellir fframio'r drwydded gyffredinol mewn termau sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol, yn eglur ac yn orfodadwy.
- Byddwn yn sefydlu proses adolygu ffurfiol ar gyfer trwyddedau cyffredinol, i'w chynnal bob chwe blynedd, i gyd-fynd â chyhoeddi asesiadau cyfnodol Adar o Bryder Cadwraethol gyda chefnogaeth panel cynghori annibynnol yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid.
- Byddwn yn parhau i ddyroddi trwyddedau cyffredinol yn flynyddol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ymlaen llaw.

Byddwn yn cadw trwyddedau cyffredinol fel rhan o'n pecyn adnoddau rheoleiddiol

Roedd hollt glir ym marn yr ymatebwyr ynghylch p'un a ddylid defnyddio trwyddedau cyffredinol o gwbl ai peidio, a mynegwyd barn o blaid ac yn erbyn yr egwyddor o ddyroddi trwyddedau cyffredinol.

Gwnaeth ymatebwyr a oedd o blaid trwyddedau cyffredinol eu disgrifio fel ffordd gyfreithlon o alluogi rheolaeth gyfreithlon rywogaethau penodol o adar gwyllt y gwyddys eu bod yn achosi niwed economaidd eang i fuddiannau amaethyddol, yn peri risgiau i iechyd a diogelwch pobl ac yn bygwth statws cadwraethol bywyd gwyllt arall. Ystyriwyd bod trwyddedau cyffredinol, yn benodol, yn cynnig opsiwn amgen angenrheidiol a chymesur i drwyddedau penodol, yn dileu'r angen i wneud ceisiadau unigol am drwyddedau, a gaiff ei hystyried yn aml yn broses feichus, fiwrocraidaidd sy'n cymryd llawer o amser.

Mynegodd y rhai a oedd yn anghytuno â thrwyddedau cyffredinol eu gwrthwynebiad gan ddadlau eu bod yn caniatáu ac yn annog unrhyw un i ladd adar gwyllt yn helaeth, heb

dystiolaeth ddibynadwy bod y rhywogaeth o dan sylw yn achosi'r mathau o niwed neu niwed ar y raddfa a briodolir iddynt. Yn ogystal â hyn nid oes unrhyw ofyniad ar ddeiliaid trwydded i ddangos bod angen rheolaeth farwol neu fod hynny'n gymesur o dan amgylchiadau penodol. Beirniadaeth a gododd yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y canfyddiad nad yw defnyddwyr trwyddedau cyffredinol yn hysbys nac yn atebol, yn enwedig o ran y ffaith nad yw CNC yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol nodi pwy ydynt i CNC, na darparu unrhyw wybodaeth am ba gamau trwyddedadwy a gymerwyd.

Ar ôl amddiffyn cyfreithlondeb nifer o'n trwyddedau cyffredinol yn llwyddiannus mewn her gyfreithiol yn 2020, rydym yn gwybod bod trwyddedau cyffredinol yn ddull cyfreithlon o awdurdodi rheolaeth farwol adar gwyllt. Maent yn rhan o ddull llai manwl o reoleiddio y bwriedir iddynt gael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd cyffredin, eang a risg isel lle mae'r angen i ddefnyddio rheolaeth farwol wedi'i hen sefydlu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch y ffordd y defnyddir trwyddedau cyffredinol ac, er bod ein trwyddedau cyffredinol presennol yn gyfreithlon, rydym yn cydnabod nad yw hynny'n golygu nad oes lle i wella. Felly, fel canlyniad allweddol i'r adolygiad hwn, rydym yn bwriadu cadw trwyddedau cyffredinol fel rhan o becyn adnoddau rheoleiddio CNC, ond i fod yn fwy detholus ynghylch pryd a ble rydym yn ystyried eu bod yn fecanwaith priodol.

Bydd ein dull o ddyroddi trwyddedau cyffredinol yn cael ei lywio gan gyfres o egwyddorion lefel uchel ar gyfer penderfynu ym mha sefyllfaoedd y mae trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol adar gwyllt yn briodol, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol gwneud cais am drwyddedau penodol

Mynegodd ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau ar ein hegwyddorion arfaethedig ar gyfer penderfynu ym mha sefyllfaoedd y mae trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol adar gwyllt yn briodol. Roedd y rheini a oedd yn cytuno â'n cynigion yn cefnogi'r syniad o gael fframwaith ar gyfer trwyddedau cyffredinol sydd wedi'i bennu mewn egwyddorion lefel uchel, tra bo'r rheini a oedd yn anghytuno yn beirniadu'r manylion neu'n anghytuno â phob un o'r egwyddorion neu rai ohonynt. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod angen sail glir ar gyfer penderfynu p'un a yw trwydded gyffredinol yn briodol a phryd mae'n briodol.

Mewn nifer o ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau defnyddwyr trwyddedau cyffredinol amlygwyd y ffaith bod llawer o drwyddedau cyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol wedi'u dyroddi i lawer o ddefnyddwyr, a'u bod wedi dibynnu arnynt ers blynyddoedd lawer. Felly, fel mater o egwyddor, dadleuwyd y dylai CNC barhau i ddyroddi trwyddedau cyffredinol ar eu ffurf bresennol oni bai, a hyd nes bod digon o dystiolaeth a chyfiawnhad dros eu newid. Nid ydym wedi ein darbwylo gan y ddadl honno. Mae unrhyw benderfyniad i ddyroddi trwydded, gan gynnwys trwydded gyffredinol, yn rhanddirymu o gyfundrefn warchod statudol. Felly, ystyriwn mai cyfrifoldeb CNC, fel yr awdurdod trwyddedau, yw pennu bod angen defnyddio rheolaeth farwol yn achos rhywogaeth benodol at ddiben penodol.

Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd mewn rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn ystyried bod yr egwyddorion yn ffurfio fframwaith cadarn i lywio ein dull o ddyroddi trwyddedau cyffredinol. Rydym yn bwriadu eu defnyddio fel egwyddorion arweiniol lefel uchel yn hytrach na rheolau pendant neu ymarfer biwrocraidd. Rydym yn cytuno ag

ymatebwyr a awgrymodd fod angen mynd i'r afael â gweithredu'r egwyddorion yn ymarferol mewn ffordd bragmatig mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch trwyddedau unigol ac y bydd angen arfer crebwyll ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu'r dull gweithredu. Mae'r egwyddorion wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Byddwn yn sefydlu proses adolygu ffurfiol ar gyfer trwyddedau cyffredinol, a gynhelir bob chwe blynedd ac a gaiff ei chefnogi gan banel cynghori annibynnol sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid

Cafwyd cytundeb eang yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y dylai trwyddedau cyffredinol fod yn destun adolygiad rheolaidd, ond roedd y farn ar y manylion ymarferol yn amrywio'n fawr.

Panel cynghori

Roedd llawer o'r rheini a oedd o blaid adolygu trwyddedau cyffredinol yn barhaus hefyd yn cefnogi'r cynnig am banel cynghori annibynnol. Fodd bynnag, nodwyd pryderon bod buddiannau penodol yn dylanwadu'n ormodol ar y broses, boed y rheini'n unigolion/sefydliadau sy'n rheoli adar gwyllt, neu'r rheini sy'n gwrthwynebu dulliau marwol o reoli adar gwyllt. Rydym yn bwriadu sefydlu panel cynghori a byddwn yn sicrhau bod ei aelodaeth yn eang a chytbwys ac yn cwmpasu amrywiaeth o safbwyntiau. Ein bwriad hefyd yw y bydd ganddo gylch gorchwyl clir a chytunedig, ac y bydd ei waith yn dryloyw, gan gynnwys cyhoeddi ei argymhellion, yn benodol i CNC.

Ymgynghoriad cyhoeddus

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai trwyddedau cyffredinol, ac unrhyw newidiadau iddynt, fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn hytrach na'u bod yn seiliedig ar argymhellion panel cynghori a chanddo aelodaeth ddetholedig. Nid ydym wedi ein darbwyllo gan y dadleuon hynny. Ein bwriad o hyd yw defnyddio panel cynghori ag aelodaeth eang a chytbwys, a fydd, yn ein barn ni, yn ffordd fwy effeithiol a mwy darbodus o ran adnoddau o adolygu ein dull o ymdrin â thrwyddedau cyffredinol nag yw cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus dro ar ôl tro. Fodd bynnag, ni fyddai trefniant y panel cynghori yn atal yr opsiwn o ystyried dull ymgynghori ehangach yn y dyfodol, er enghraifft pe bai newidiadau sylweddol iawn yn cael eu hystyried.

Amllder adolygu

Nododd yr ymatebwyr awgrymiadau amrywiol fod ein cyfnod adolygu arfaethedig o dair blynedd yn rhy hir ac yn rhy fyr. Cyfeiriodd nifer o'r rheini a ddywedodd nad yw cyfnod o dair blynedd yn ddigon aml at ein bwriad i barhau i ddyroddi trwyddedau cyffredinol yn flynyddol ac felly, gan fod rhaid i'r dystiolaeth gyfiawnhau pob penderfyniad i ddyroddi trwydded gyffredinol, bydd angen cynnal rhyw fath o adolygiad bob blwyddyn mewn gwirionedd. Ar y llaw arall, roedd y dadleuon a wnaed gan y rhai a deimlai fod cyfnod o dair blynedd yn rhy aml yn cynnwys pryderon am y goblygiadau o ran adnoddau (i CNC, ac i gyrff eraill sy'n cymryd rhan yn y broses adolygu), a hefyd am yr ansicrwydd y gallai proses adolygu aml ei chreu i ddefnyddwyr trwyddedau. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, rydym yn bwriadu cyflawni'r canlynol:

- Cynnal adolygiad ffurfiol, bob chwe blynedd, o unrhyw drwyddedau cyffredinol sy'n awdurdodi rheolaeth farwol adar gwyllt yng Nghymru, gyda'r bwriad o gyd-ddigwydd â chyhoeddi asesiadau diweddaredig Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru. Caiff yr adolygiad ei gefnogi gan banel cynghori fel yr amlinellwyd uchod. Disgwylir cyhoeddi asesiad nesaf Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru ddiwedd 2022. Ar y sail hon bydd asesiad cyntaf ein panel cynghori (ar gyfer y flwyddyn sylfaenol) yn cael ei gynnal yn 2023.
- Parhau i wneud penderfyniad blynyddol ynghylch p'un a ddylid adnewyddu trwydded gyffredinol, yn unol â'n rhwymedigaethau statudol. Bydd hwn yn gyfle inni ystyried p'un a oes angen gwneud unrhyw newidiadau yng ngoleuni unrhyw dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn honno. Hynny yw, nid yr adolygiadau chwe blynedd fydd yr unig adeg y gellir gwneud newidiadau, ond y rhagdybiaeth fydd y câi trwydded gyffredinol ei dyroddi o'r newydd bob blwyddyn heb ei newid yn sylweddol oni bai bod rhesymau cadarn dros wneud unrhyw newidiadau.

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu trwyddedau cyffredinol

Roedd rhai ymgylgoreion yn pryderu y bydd sylfaen dystiolaeth wan ar gyfer adolygiadau, yn enwedig o ystyried y diffyg data a gasglwyd ar y defnydd o drwyddedau cyffredinol. Dadleuwyd na ddylai CNC ddibynnu ar dystiolaeth sy'n digwydd dod i'r amlwg ar hap, ond y dylai fynd ati'n rhagweithiol i gomisiynu rhaglen waith i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth allweddol. Rydym yn cydnabod y pryder hwn a'n bwriad yw y bydd y panel cynghori ei hun yn chwarae rhan mewn nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch trwyddedau cyffredinol ac mewn gwneud argymhellion ar y blaenoriaethau o ran y gwaith o fynd i'r afael â'r bylchau hynny. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth allweddol sy'n ymwneud â thrwyddedu cyffredinol wrth bennu blaenoriaethau yn rhaglenni tystiolaeth CNC yn ehangach.

Byddwn yn parhau i ddyroddi trwyddedau cyffredinol yn flynyddol ac yn diweddar sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ymlaen llaw

Roedd awgrymiadau gan ymatebwyr am ba mor hir y dylai trwyddedau cyffredinol fod yn ddilys yn amrywio rhwng llai na blwyddyn a blwyddyn gyfan, dwy flynedd, tair blynedd, pum, deng a 25 mlynedd, neu am gyfnod amhenodol.

Dwy flynedd yw'r cyfnod hwyaf a ganiateir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd (y Ddeddf) ar gyfer unrhyw drwyddedau sy'n awdurdodi gweithredu mewn perthynas ag adar gwyllt. Y prif ddadleuon gan y rheini sy'n dadlau o blaid trwyddedau cyffredinol sy'n para dwy flynedd yw y byddent yn rhoi sicrwydd tymor hwy i ddefnyddwyr trwyddedau ac yn lleihau'r baich rheoleiddio. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth hefyd dros gadw trwyddedau cyffredinol sy'n para blwyddyn, gyda'r ymatebwyr yn nodi mai dyma'r dull gweithredu a ddilynwyd ers blynyddoedd lawer a'i fod yn gyfarwydd iawn i ddefnyddwyr.

Nid ydym yn ystyried bod y broses o gyhoeddi trwyddedau cyffredinol yn flynyddol yn rhy feichus o safbwynt gweinyddol. Hefyd, mae patrymau tymhorol yn chwarae rhan yn y ffordd y caiff trwyddedau cyffredinol eu defnyddio, ac rydym yn barnu bod hynny'n ei

gwneud yn rhesymegol eu dyroddi'n flynyddol. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod trwyddedau cyffredinol blynyddol, lle mae tymor y drwydded yn cyfateb i'r flwyddyn galendr (1 Ionawr i 31 Rhagfyr), yn glir, yn rhesymegol ac yn gyfarwydd i ddefnyddwyr yng Nghymru.

Amlygodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd amser paratoi rhesymol ar gyfer trwyddedau cyffredinol newydd. Rydym yn bwriadu parhau â'r arfer o gyhoeddi trwyddedau newydd cyn i'r hen rai ddod i ben a diweddarau sefydliadau rhanddeiliaid allweddol. Pan fo newidiadau sylweddol byddwn yn ymdrechu i ddarparu cyfnod paratoi hwy.

Yn ddiweddarach yn y ddogfen hon rhoddir sylw i'r cwestiwn a ddylid cyfyngu camau gweithredu o dan drwyddedau cyffredinol a ddyroddir yn flynyddol i adegau neu dymhorau penodol yn ystod y flwyddyn, a hynny mewn perthynas â dibenion trwyddedu penodol.

Sut mae trwyddedau cyffredinol yn cael eu defnyddio

Crynodeb

- Byddwn yn cynghori ac yn cyhoeddi canllawiau y dylai defnyddwyr, cyn gweithredu dulliau marwol o reoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol, gymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r broblem gan ddefnyddio dulliau eraill nad ydynt yn farwol, a dylent barhau i gymryd camau o'r fath.
- Byddwn yn cynghori defnyddwyr i gadw cofnodion o'u gweithredoedd trwyddedig, ond ni fyddwn yn cyflwyno gofyniad i gofrestru na darparu adroddiadau i CNC.
- Byddwn yn cynghori unrhyw unigolyn sy'n rheoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol ar ran perchennog neu feddiannwr tir, i gael caniatâd ysgrifenedig y perchennog neu feddiannwr.
- Byddwn yn cyhoeddi trwyddedau cyffredinol ar ffurf HTML, ond yn sicrhau bod fersiynau PDF ar gael hefyd.
- Byddwn yn egluro rôl CNC o ran cydymffurfedd a gorfodi cyfraith bywyd gwyllt, gan gynnwys mewn perthynas â thrwyddedau cyffredinol.

Byddwn yn cynghori ac yn cyhoeddi canllawiau y dylai defnyddwyr, cyn gweithredu dulliau marwol o reoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol, gymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r broblem gan ddefnyddio dulliau eraill nad ydynt yn farwol, a dylent barhau i gymryd camau o'r fath

Cafwyd cefnogaeth helaeth gan ymatebwyr i'r egwyddor na ddylid ystyried bod rheolaeth farwol ymhlith y camau cyntaf i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd hollt amlwg iawn yn y safbwyntiau o ran angenrheidrwydd ac ymarferoldeb pennu amod i'r drwydded gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr geisio datrys problemau gan ddefnyddio dewisiadau cyfreithlon nad ydynt yn farwol yn gyntaf ac i barhau i wneud hynny.

Nid yw'n ofyniad statudol i rywun sy'n bwriadu dibynnu ar drwydded gyffredinol brofi nad oes datrysiadau boddhaol eraill ar gael. Mae'r gofyniad statudol o ran sefyllfa pan nad oes datrysiadau boddhaol eraill ar gael yn berthnasol i benderfyniad CNC p'un a ddylid dyroddi'r drwydded gyffredinol ai peidio. Ar ôl i ni fodloni ein hunain mai dyroddi trwydded gyffredinol yw'r unig ateb boddhaol, nid oes unrhyw ofyniad statudol ychwanegol ar drwyddedeion i geisio mynd i'r afael â'r broblem gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn farwol cyn troi at reolaeth farwol.

Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai defnyddwyr trwyddedau cyffredinol wneud ymdrechion rhesymol i fynd i'r afael â'r broblem neu'r angen o dan sylw gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn farwol, ac i beidio â throi at reolaeth farwol oni bai bod angen gwneud hynny. Yn y papur ymgynghori, gwnaethom gynnig gwneud hwn yn amod gorfodol ar y drwydded. Cododd ymatebwyr a anghytunodd â'r cynnig hwn bryderon ynghylch ei ddehongli yn ymarferol mewn perthynas â'r holl amgylchiadau gwahanol lle y gellid defnyddio trwyddedau cyffredinol. Er enghraifft, roedd pryderon ynghylch yr hyn a fyddai'n

cael ei ystyried yn 'gamau rhesymol' mewn sefyllfa benodol, a sut y byddai disgwyl i ddefnyddiwr trwydded gydymffurfio mewn gwirionedd, a gallu profi cydymffurfedd ag amod o'r fath, gan gynnwys rhwymedigaeth i 'barhau' i gymryd camau o'r fath.

Caiff trwyddedau cyffredinol eu dyroddi pan mae'n bosibl bod angen rheoli adar gwyllt mewn ystod eang o amgylchiadau unigol. Rydym yn cydnabod efallai nad yw'n ymarferol diffinio'r holl amgylchiadau unigol y gellir defnyddio trwydded gyffredinol ar eu cyfer, ac felly fe fyddai'r un mor anymarferol i CNC ragnodi mewn amodau trwyddedau ba ddulliau amgen nad ydynt yn farwol y dylid rhoi cynnig arnynt a pha mor aml y dylid eu defnyddio cyn troi at reolaeth farwol, neu ragnodi'r hyn a ystyrir yn gamau rhesymol i fynd i'r afael â'r broblem neu'r angen. Mae angen i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol arfer crebwyll ynghylch beth fyddai'n rhesymol ac yn ymarferol mewn sefyllfa benodol. Gan fod angen dibynnu cymaint ar grebwyll defnyddwyr y drwydded, rydym wedi'n darbwyllo ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r pwynt hwn drwy roi cyngor mewn trwyddedau cyffredinol, a'u hategu gyda chanllawiau, er mwyn annog defnyddwyr i geisio defnyddio dewisiadau amgen cyfreithlon nad ydynt yn farwol, yn hytrach na chynnwys amod trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny.

Byddwn yn cynghori defnyddwyr i gadw cofnodion o'u gweithredoedd trwyddedig, ond ni fyddwn yn cyflwyno gofyniad i gofrestru na darparu adroddiadau i CNC

Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn. Nododd nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr trwyddedau cyffredinol mai'r drefn o gadw cofnodion yw'r norm a'i fod yn cael ei ystyried yn arfer gorau yn gyffredinol, a bod ei atgyfnerthu drwy gyngor ar y trwyddedau yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nododd llawer o ymatebwyr eu bod o'r farn bod cadw cofnodion o'r fath yn fiwrocratiaeth ddiangen.

Nid ydym wedi ein darbwyllo bod y cynnig hwn yn golygu biwrocratiaeth ddiangen. Rydym o'r farn bod y drefn o gadw cofnodion a fabwysiedir gan ddefnyddwyr o unrhyw drwyddedau cyffredinol gyfystyr â'r arfer gorau ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod trwydded gyffredinol yn ganiatâd statudol i gymryd camau a fyddai'n anghyfreithlon fel arall. Credwn hefyd fod y ffaith bod defnyddwyr trwyddedau cyffredinol yn cadw cofnodion yn dangos ymrwymiad i weithredu yn unol â thelerau ac amodau'r drwydded, a phe bai CNC neu'r Heddlu yn gofyn i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol ddarparu tystiolaeth o'u gweithgareddau trwyddedig byddai eu cofnodion yn ddefnyddiol iddynt. Nid yw'n fwriad gennym ragnodi cynnwys y cofnodion a gedwir nac ar ba ffurf y gwneir hynny, ac nid oes angen i waith o'r fath fod yn arbennig o feichus na chymryd llawer o amser.

Un feirniadaeth o drwyddedau cyffredinol a gododd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd nad oes unrhyw ofyniad i ddefnyddwyr trwyddedau roi eu manylion i CNC ac nid oes unrhyw rhwymedigaeth i ddarparu adroddiadau i CNC ar ba weithgareddau y maent yn eu cyflawni. Drwy ddiffiniad, ar ôl dilyn yr egwyddorion a ddisgrifir uchod, bydd CNC yn dyroddi trwydded gyffredinol dim ond pan fo'r problemau y mae adar gwyllt penodol yn eu hachosi wedi'u hen sefydlu a bod angen clir a helaeth i reoli adar gwyllt, lle cyflawnir gweithgareddau trwyddedig gan nifer mawr o ddefnyddwyr a lle maent yn peri risg isel i statws cadwraethol y rhywogaeth darged. Rydym yn parhau i fod o'r farn na fyddai gwerth yr wybodaeth y gallem ei chael o system gofrestru ac adrodd defnyddwyr ar gyfer

trwyddedau cyffredinol yn ddigon i gyfiawnhau'r costau, yr ymarferoldeb a'r baich ar ddefnyddwyr o gyflwyno a gweinyddu trefniadau o'r fath.

Byddwn yn cynghori unrhyw unigolyn sy'n rheoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol ar ran perchennog neu feddiannwr tir i gael caniatâd ysgrifenedig y perchennog neu feddiannwr

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom gynnig y dylai unrhyw unigolyn ac eithrio perchennog neu feddiannwr y tir sy'n rheoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol ar ran perchennog neu feddiannwr tir, gael caniatâd ysgrifenedig. At hynny, gwnaethom gynnig y dylai hwn fod yn amod, er cysondeb â'r gofyniad bod angen i unrhyw un sy'n gweithredu o dan drwydded gyffredinol ar ran corff cyhoeddus, yn hytrach na perchennog tir preifat, gael caniatâd ysgrifenedig.

Er bod cefnogaeth i'r cynnig hwn, roedd llawer o ymatebwyr yn cwestiynu a oedd ei angen mewn gwirionedd, gan ddadlau y dylai CNC ddilyn y diffiniad statudol o 'unigolyn awdurdodedig' yn adran 27 o'r Ddeddf, nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn sy'n gweithredu ar ran perchennog tir preifat gael caniatâd ysgrifenedig. Mynegwyd barn hefyd nad oedd tystiolaeth bod yma broblem wirioneddol yr oedd angen mynd i'r afael â hi, ac na ddylai CNC wneud hwn yn amod trwydded dim ond er mwyn sicrhau cysondeb. Dadleuwyd hefyd bod y cynnig hwn yn anghymesur, a nododd rhai ymatebwyr nad oes gofyniad cyfreithiol, yn gyffredinol, i gontractau neu gytundebau fod yn ysgrifenedig.

Rydym yn parhau i fod o'r farn, fel mater o arfer gorau, y dylai unigolion sy'n gweithredu o dan drwydded gyffredinol nad ydynt yn berchennog neu'n feddiannwr y tir dan sylw, gael caniatâd ysgrifenedig gan y perchennog neu'r deiliad lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi ein darbwylllo nad oes modd cyfiawnhau cyflwyno'r gofyniad hwn fel amod trwydded at ei gilydd. Felly byddwn yn ei gynnwys fel cyngor mewn unrhyw drwyddedau cyffredinol a ddyroddwn, yn hytrach nag ar ffurf amod.

Byddwn yn cyhoeddi trwyddedau cyffredinol ar ffurf HTML, ond hefyd yn sicrhau bod fersiynau PDF ar gael

Yn yr un modd â chyrrff cyhoeddus eraill, ac mewn ymateb i ofynion statudol ynghylch hygyrchedd gwybodaeth, mae CNC yn symud tuag at wneud mwy o ddefnydd o HTML yn ein cyhoeddiadau electronig, a lleihau'r defnydd o ddogfennau PDF ar draws y wefan. Gan eu bod yn gyhoeddiadau electronig, mae trwyddedau cyffredinol yn dod o fewn cwmpas y gwaith hwnnw.

Fodd bynnag, yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyfeiriodd llawer o ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol at y manteision ymarferol o gadw trwyddedau cyffredinol ar ffurf PDF, er enghraifft er hwylustod eu hargraffu a hefyd er mwyn gallu lawrlwytho copiâu electronig a'u cadw ar ddyfeisiau electronig y gellir eu cario yn y maes mewn ardaloedd lle mae mynediad i'r rhyngwrwd i fersiynau HTML ar-lein yn gyfyngedig os oes mynediad o gwbl.

Er ein bod o'r farn ei bod yr un mor hawdd mynd i'r afael â'r materion hyn gyda dogfennau HTML â dogfennau PDF, yng ngoleuni adborth defnyddwyr, ochr yn ochr â chyhoeddi'r

trwyddedau cyffredinol fel tudalennau HTML ar ein gwefan, bydd opsiwn i argraffu pob trwydded fel dogfen PDF, y gellir wedyn ei lawrlwytho neu ei chadw ar ddyfais y defnyddiwr.

Byddwn yn egluro rôl CNC o ran cydymffurfedd â chyfraith bywyd gwyllt, a'i gorfodi, gan gynnwys mewn perthynas â thrwyddedau cyffredinol

Cododd rhai ymatebwyr y mater o gydymffurfio â thelerau ac amodau trwyddedau cyffredinol, ac roeddent yn feirniadol o'r diffyg gwaith monitro a gorfodi cydymffurfedd a wneir yn achos trwyddedau cyffredinol. Yn benodol, ystyriwyd bod absenoldeb unrhyw ofyniad ar ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol i gofrestru neu i ddarparu adroddiadau yn wendid sylfaenol i drwyddedau cyffredinol o safbwynt cydymffurfio a gorfodi.

Yr heddlu, yn hytrach na CNC, yw'r corff gorfodi ar gyfer troseddau bywyd gwyllt, a all gynnwys torri amodau a thelerau trwyddedau a ddyroddir o dan adran 16 o'r Ddeddf, gan gynnwys trwyddedau cyffredinol.

Fel yr awdurdod sy'n dyroddi trwyddedau, ystyriwn mai ein blaenoriaeth ni yw llunio trwyddedau cyffredinol sydd mor eglur â phosibl er mwyn sicrhau bod defnyddwyr trwyddedau yn deall eu telerau a'u hamodau a bod modd eu gorfodi'n hawdd. Mae'n rhesymol disgwyl, fel gydag unrhyw fath o drwydded neu ganiatâd a ddyroddwn, y bydd defnyddwyr yn glynu wrth yr holl delerau ac amodau. Gall methu â gwneud hynny arwain at gyflawni troseddau, ac mae'r cwestiwn a oes unrhyw droseddau wedi'u cyflawni mewn gwirionedd yn rhywbeth y mae rhaid ei brofi mewn achosion unigol.

Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys honiadau bod trwyddedau cyffredinol yn cael eu camddefnyddio'n eang a'u bod yn caniatáu neu hyd yn oed yn annog gweithgareddau anghyfreithlon, er na ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiadau o'r fath. Dylid dwyn unrhyw amheuaeth o dorri amodau neu o gyflawni troseddau i sylw'r heddlu, a bydd CNC yn cynorthwyo ac yn cefnogi'r heddlu mewn unrhyw ymchwiliad dilynol.

Rhywogaethau targed ar drwyddedau cyffredinol

Crynodeb

- Rydym o'r farn na ddylai unrhyw rywogaeth adar gwyllt sy'n destun pryder cadwraethol fod yn destun rheolaeth farwol o dan drwyddedau cyffredinol, ond na ddylid defnyddio unrhyw ddulliau marwol o reoli rhywogaethau o'r fath, at unrhyw ddiben, ond o dan drwyddedau penodol.
- Byddwn yn defnyddio system restru coch ac oren Adar o Bryder Cadwraethol Cymru i'n llywio wrth ystyried p'un a yw'n addas cynnwys rhywogaeth ar drwyddedau cyffredinol. Disgwylir asesiad nesaf Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru yn ddiweddarach yn 2022.
- Ni fyddwn yn cynnwys y fulfran na'r hwyaden ddanheddog ar drwyddedau cyffredinol at y diben o atal difrod difrifol i bysgodfeydd neu at ddibenion cadwraeth, ond byddwn yn parhau i awdurdodi rheolaeth y ddwy rywogaeth hyn o adar sy'n bwyta pysgod drwy drwyddedau penodol.
- Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw rywogaethau ychwanegol ar unrhyw drwyddedau cyffredinol ar hyn o bryd, ond bydd cwmpas trwyddedau cyffredinol yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Rydym o'r farn na ddylai unrhyw rywogaeth o adar gwyllt sy'n destun pryder cadwraethol fod yn destun dulliau rheoli marwol o dan drwyddedau cyffredinol, ond y dylai unrhyw reolaeth farwol yn achos rhywogaethau o'r fath, at unrhyw ddiben, ddigwydd o dan drwyddedau penodol

Cafwyd nifer mawr o sylwadau gan ymatebwyr ynghylch y cynnig na ddylai unrhyw rywogaethau o adar gwyllt sy'n destun pryder cadwraethol fod yn destun rheolaeth farwol o dan drwyddedau cyffredinol. Roedd y prif reswm a roddwyd dros gytuno â'n cynigion ar y mater hwn yn debyg i'r rhesymeg a nodwyd gennym yn ein papur ymgynghori, sef oherwydd nad yw trwyddedau cyffredinol yn gosod cyfyngiadau ar nifer yr adar y gellir eu lladd, byddai caniatáu rheolaeth rhywogaeth sydd o bryder cadwraethol ei hun o dan drwydded gyffredinol yn peri lefel anhysbys o risg i'w statws cadwraethol. Aeth rhai ymatebwyr ymhellach a dweud bod caniatáu rheolaeth unrhyw rywogaeth o dan drwydded gyffredinol yn peri risg annerbyniol i'w statws cadwraethol.

Roedd y prif resymau a roddwyd dros anghytuno â'r cynnig hwn yn ymwneud â defnyddio asesiadau Adar o Bryder Cadwraethol fel sail i benderfynu p'un a yw statws cadwraethol rhywogaeth yn golygu ei bod yn addas ei chynnwys ar drwyddedau cyffredinol. Dadleuwyd nad yw system restru oren/coch Adar o Bryder Cadwraethol yn sail briodol ar gyfer hyn, yn enwedig mewn perthynas â rhywogaethau sydd, er bod tystiolaeth yn dangos eu bod yn prinhaus o bosibl ac felly wedi'u cynnwys yn y rhestr oren, yn dal i fod yn doreithiog ac yn fwy niferus na lefelau'r boblogaeth hanesyddol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y bidden yn benodol fel enghraifft o rywogaeth o'r fath. Felly, dadleuwyd na fyddai rhoi caniatâd iddynt gael eu rheoli o dan drwydded gyffredinol yn rhoi eu statws cadwraeth mewn perygl mewn gwirionedd.

Cynigiodd rhai o'r ymatebwyr fod categori 'peryl difodiant' yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (International Union for the Conservation of Nature, neu IUCN) yn sail fwy priodol i nodi pa rywogaethau y mae'n addas eu cynnwys ar drwyddedau cyffredinol o ran eu statws cadwraeth eu hunain, neu beidio.

Rydym yn parhau i fod o'r farn, os yw rhywogaeth o bryder cadwraethol, na ddylid ei chynnwys ar drwydded gyffredinol. Wrth gwrs, mae'n bosibl y ceir ystod o amgylchiadau lle mae defnyddio dulliau marwol yn erbyn rhywogaeth o'r fath yn angenrheidiol i gyflawni un neu ragor o'r dibenion a restrir yn y Ddeddf, ond rydym o'r farn mai trwyddedau penodol yw'r mecanwaith rheoleiddio priodol.

Nid ydym wedi ein darbwylllo gan y dadleuon y byddai categori 'peryl difodiant' yr IUCN yn fesur gwell o bryder cadwraethol yng nghyd-destun addasrwydd rhywogaeth ar gyfer ei chynnwys ar drwyddedau cyffredinol. Mae system Adar o Bryder Cadwraethol yn gadarn, yn annibynnol, yn cymhwyso set safonol o feini prawf, a dibynnir arno yn eang fel modd o bennu blaenoriaethau cadwraeth ar gyfer adar Cymru a'r DU. Mae hefyd yn darparu asesiad sy'n benodol i Gymru. Mae asesiadau Adar o Bryder Cadwraethol yn ystyried newidiadau hirdymor (dros fwy na 25 mlynedd) yn nhueddiadau niferoedd a gwasgariad. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae asesiad rhestr goch yr IUCN yn canolbwyntio ar rywogaethau sydd â niferoedd bach iawn, yn gyfyngedig eu gwasgariad, neu sydd wedi prinhaus yn gyflym yn ddiweddar, ac mae'n canolbwyntio ar gyfnod byrrach o amser. Mae rhai rhywogaethau sydd ar restrau coch neu oren Adar o Bryder Cadwraethol ar hyn o bryd yng nghategori 'o bryder lleiaf' IUCN Prydain, er enghraifft yr ehedydd, y fronfraith a'r llinos.

Byddwn yn defnyddio rhestr goch ac oren Adar o Bryder Cadwraethol Cymru i'n llywio wrth ystyried p'un a yw'n addas cynnwys rhywogaeth ar drwyddedau cyffredinol

O dan fframwaith Adar o Bryder Cadwraethol, gellir cynnwys rhywogaeth ar y rhestr goch neu oren yn ôl ystod o feini prawf, gan gynnwys dirywiad yn niferoedd a gwasgariad y boblogaeth yn y DU, ei phrinder a'i harwyddocâd yn rhyngwladol. Byddwn yn defnyddio restrau coch, oren neu wyrdd Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru i'n llywio wrth asesu pa rywogaethau targed o adar gwyllt y maent yn addas eu cynnwys fel rhywogaeth darged ar drwydded gyffredinol. Disgwylir cyhoeddi asesiad nesaf Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru ddiwedd 2022. Bydd asesiad cyntaf ein panel cyntaf (ar gyfer y flwyddyn sylfaenol) yn cael ei gynnal yn 2023.

Sefyllfa poblogaeth y biden

Yn asesiad diweddaraf Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru (Johnstone a Bladwell, 2016), mae'r biden ar y rhestr werdd, hynny yw, nid ydynt o bryder cadwraethol. Yn ein papur ymgynghori, gwnaethom amlygu'r ffaith bod poblogaeth y biden yn dirywio'n sylweddol yng Nghymru. Yn ôl yr asesiad diweddaraf o'r arolwg o adar bridio ar gyfer Cymru (Harris *et al.*, 2020), rhwng 1995 a 2018 mae poblogaeth y biden wedi gostwng yn sylweddol, ac nid yw'r rhesymau dros hynny'n hysbys. Mae gan biod y potensial i achosi difrod i dda byw a chael effeithiau negyddol ar rywogaethau eraill, ac maent wedi'u rhestru ar nifer o drwyddedau cyffredinol yng Nghymru ers blynyddoedd lawer a deallwn y defnyddir dulliau marwol yn eang i'w rheoli.

O ystyried y dystiolaeth o'r dirywiad ym mhoblogaeth y biden yng Nghymru, arweiniodd y cwestiwn a yw'n addas cynnwys y biden ar drwyddedau cyffredinol at begynnu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cwestiynu pa mor ddibynadwy oedd y dystiolaeth a oedd yn dangos bod poblogaethau'r biden yn dirywio, gan nodi, ar sail arsylwadau personol a thystiolaeth anecdotaidd, eu bod yn credu bod poblogaethau'r biden yn sefydlog neu hyd yn oed eu bod yn cynyddu. Cafwyd sylwadau hefyd y gallai poblogaethau'r biden fod yn dirywio mewn rhai rhannau o Gymru ond yn cynyddu mewn rhannau eraill ohoni a'i bod yn gamarweiniol cyflwyno sefyllfa gyffredinol sy'n nodi bod y boblogaeth yn dirywio. Roedd eraill yn dadlau, hyd yn oed os oes arwyddion bod dirywiad ym mhoblogaeth y biden ar hyn o bryd, ei bod yn parhau i fod yn rhywogaeth niferus, bod poblogaethau'r DU lawer yn uwch na'r niferoedd hanesyddol, eu bod yn parhau i achosi difrod sylweddol i dda byw ac yn parhau i beri bygythiad sylweddol i statws cadwraethol rhywogaethau adar bregus y maent yn ysglyfaethu arnynt.

Ar y llaw arall, a hynny os yw'n wir bod y biden yn prinhau i raddau digon sylweddol iddi gael ei chynnwys yn rhestr oren Adar o Bryder Cadwraethol, cafwyd cefnogaeth gan ymgynghoreion i'r egwyddor y dylid rheoleiddio unrhyw reolaeth ar biod at ddiben atal difrod difrifol neu at ddibenion cadwraeth o dan drefniadau trwyddedu penodol yn hytrach na thrwyddedu cyffredinol, a byddai hynny'n gwella gallu CNC i fonitro a rheoli'r niferoedd yr awdurdodir eu lladd. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylid tynnu'r biden oddi ar drwyddedau cyffredinol ar unwaith oherwydd bod tystiolaeth eu bod yn dirywio, yn hytrach nag aros am asesiad nesaf Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru.

Nid oes unrhyw ddata hanesyddol ar y tueddiadau ym mhoblogaeth y biden yng Nghymru dros yr hirdymor, ac nid yw'n briodol tybio bod y duedd hirdymor ym mhoblogaeth y DU yn cael ei hadlewyrchu yng Nghymru. Mewn data a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar boblogaeth y biden yng Nghymru amcangyfrifir bod 79,500 o barau (Hughes *et al.*, 2020) a 61,700 o barau (Noble *et al.*, 2022).

Rydym yn parhau i fod o'r farn bod rhestrau coch, oren neu wyrdd Adar o Bryder Cadwraethol ar gyfer Cymru yn cynnig sylfaen gadarn i'n llywio wrth asesu p'un a yw'n addas cynnwys rhywogaeth benodol o aderyn gwyllt fel rhywogaeth darged ar drwyddedau cyffredinol.

Mae'r biden ar y rhestr werdd ar hyn o bryd. Disgwylir cyhoeddi'r asesiad Adar o Bryder Cadwraethol nesaf ar gyfer Cymru ddiwedd 2022 ac ar ôl hynny byddwn yn adolygu pa rywogaethau o adar gwyllt, gan gynnwys y biden, y mae'n addas eu cynnwys fel rhywogaeth darged ar drwyddedau cyffredinol.

Ni fyddwn yn cynnwys y fulfran na'r hwyaden ddanheddog ar drwyddedau cyffredinol at y diben o atal difrod difrifol i bysgodfeydd neu at ddibenion cadwraeth, ond byddwn yn parhau i awdurdodi rheolaeth y ddwy rywogaeth hyn o adar sy'n bwyta pysgod drwy drwyddedau penodol

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amrywio o ran p'un a ddylid cynnwys y ddwy rywogaeth hyn o adar sy'n bwyta pysgod ar drwyddedau cyffredinol. Gwnaeth yr

ymatebwyr hynny a oedd yn barnu y dylid rheoli'r rhywogaethau hyn o dan drwyddedau cyffredinol gyfeirio at y ffaith bod poblogaethau'r rhywogaethau hyn yng Nghymru mewn sefyllfa iach, gan nodi bod hyn yn cyferbynnu'n llwyr â chyflwr prin iawn y poblogaethau o salmonidau yn afonydd Cymru, y mae mulfrain a hwyaid danheddog yn ysglyfaethu arnynt.

Ar y llaw arall, mynegodd y rheini a oedd yn gwrthwynebu rheoli adar sy'n bwyta pysgod drwy drwyddedau cyffredinol lawer o'r dadleuon ehangach a wnaed yn erbyn trwyddedau cyffredinol, gan gynnwys eu bod wedi'u llunio yn rhy eang ac yn agored i gael eu camddefnyddio i ladd adar gwyllt yn ddiangen. Dadleuodd ymatebwyr hefyd fod dosbarthiad lleol adar sy'n bwyta pysgod a'r ffaith eu bod yn ysglyfaethu mewn modd sy'n benodol i'r cynefin yn golygu bod system drwyddedu benodol yn ddull rheoleiddio cymesur ac effeithiol.

Yng ngoleuni'r sylwadau hyn ac yn erbyn cefndir ein holl egwyddorion ar gyfer system drwyddedu cyffredinol, rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai rheolaeth farwol adar sy'n bwyta pysgod barhau i fod yn ddarostyngedig i system drwyddedu benodol. Yn gyntaf, mae'r fulfran ar restr oren Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru ac yn ail, er ein bod yn cydnabod bod yr hwyaden ddanheddog ar y rhestr werdd, nid yw'r ffaith bod y boblogaeth rhywogaeth benodol mewn sefyllfa iach yn sail ddigonol i ddyroddi trwydded gyffredinol i ganiatáu ei rheoli â dulliau marwol. Rydym yn cael llai nag 20 o geisiadau'r flwyddyn, ar draws Cymru gyfan, am drwyddedau penodol i reoli mulfrain a hwyaid danheddog. Ystyriwn fod y nifer bach hwn o geisiadau yn awgrymu y byddai trwydded gyffredinol yn ddiangen ac na fyddai'n ymateb cymesur.

At hynny, mae grŵp cynghori ar adar sy'n bwyta pysgod, a arweinir gan CNC, wrthi'n adolygu dulliau o reoli adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru, gan gynnwys llunio cynigion ar gyfer cyflwyno system drwyddedu ar sail ardal (lle byddai rheolaeth adar sy'n bwyta pysgod wedi'i hawdurdodi o dan drwydded benodol a fyddai'n gymwys, er enghraifft, ar draws dalgylch afon), ac ystyried p'un a ddylai fod yn ofynnol i geisiadau am drwyddedau gynnwys cynlluniau rheoli sy'n manylu ar gymysgedd o fesurau marwol ac anfarwol i fynd i'r afael â'r problemau y gallai adar sy'n bwyta pysgod fod yn eu hachosi. Byddai mesurau o'r fath yn anodd iawn, os nad yn amhosibl eu cyflwyno, pe byddai rheolaeth farwol adar sy'n bwyta pysgod yn cael ei chaniatáu o dan drwydded gyffredinol.

Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw rywogaethau ychwanegol ar unrhyw drwyddedau cyffredinol ar hyn o bryd, ond bydd cwmpas trwyddedau cyffredinol yn cael eu hadolygu'n barhaus

Yn y papur ymgynghori, gofynnwyd cwestiwn agored gennym, sef p'un a ddylid ystyried cynnwys unrhyw rywogaethau eraill, nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys ar un neu ragor o'r trwyddedau cyffredinol, fel rhywogaeth darged ar drwyddedau cyffredinol ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt. Mewn ymateb, gwnaeth un neu ragor o'r ymatebwr grybwyll y rhywogaethau adar canlynol, nad ydynt eisoes wedi'u rhestru ar un neu ragor o'n trwyddedau cyffredinol:

- Brain: yr ydfran, y gigfran.
- Y durtur dorchog.
- Gwylanod: gwylanod yn gyffredinol, gwylan y gweunydd, gwylan y penwaig, yr wylan gefnddu leiaf, yr wylan gefnddu fwyaf.

- Y ddrudwen.
- Adar sy'n bwyta pysgod: y crëyr glas, y fulfran, yr hwyaden ddanheddog, yr hwyaden frongoch, y fôr-hwyaden, hwyaid â phigau danheddog yn gyffredinol.
- Gwyddau a hwyaid: yr wÿdd lwyd, gwyddau a hwyaid hybrid.
- Rhywogaethau estron eraill: pob rhywogaeth estron, gŵydd yr Aiff, y paracît torchog, yr hwyaden gribog.
- Adar ysglyfaethus: adar ysglyfaethus yn gyffredinol, y boncath.
- Adar hela: y ffesant, y betrisen goesgoch.

Rydym wedi ystyried pob un o'r rhywogaethau, neu'r grwpiau o rywogaethau hyn yng ngoleuni ein hegwyddorion ar gyfer dyroddi trwyddedau cyffredinol ac wedi dod i'r casgliad nad oes sail ddigonol ar hyn o bryd i gynnwys unrhyw un ohonynt ar unrhyw drwyddedau cyffredinol. Mae un neu ragor o'r canlynol yn nodi'r prif resymau dros hyn (gan nodi y ceir disgrifiad o'n safbwynt ar adar sy'n bwyta pysgod uchod):

- Rydym o'r farn bod y rhywogaeth, er enghraifft y ddrudwen a rhai rhywogaethau o wylanod a'r hwyaden frongoch yn destun pryder cadwraethol;
- Dim ond nifer bach o geisiadau am drwyddedau penodol i reoli'r rhywogaeth (er enghraifft adar ysglyfaethus a'r fôr-hwyaden) y mae CNC yn eu derbyn, neu mewn rhai achosion dim un, , a/neu ychydig iawn o dystiolaeth sy'n bodoli, os o gwbl, sy'n dangos angen gwirioneddol ac amlwg i ddefnyddio dulliau marwol i'w rheoli'n eang, ac felly byddai ei chynnwys ar drwydded cyffredinol yn anghymesur;
- Nid yw trwydded i ladd neu gymryd y rhywogaeth yn angenrheidiol neu nid yw'n bosibl. Yn achos lladd neu gymryd ffesantod a phetris coesgoch, nid oes angen trwydded y tu allan i'r tymor caeedig. Yn yr un modd, yn ystod y tymor caeedig, nid oes gan CNC y pŵer cyfreithiol i ddyroddi trwyddedau sy'n caniatáu lladd neu gymryd y naill na'r llall o'r rhywogaethau hyn.

Felly ni fyddwn yn cynnwys unrhyw rywogaethau ychwanegol o adar gwyllt ar unrhyw un o'n trwyddedau cyffredinol ar hyn o bryd. Bydd y safbwynt hwnnw'n parhau i gael ei hadolygu.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr y farn hefyd y dylai CNC ddyroddi trwyddedau cyffredinol sy'n awdurdodi defnyddio dulliau marwol i reoli'r rhywogaethau canlynol o famaliaid:

- llwynogod, gwiwerod llwyd, mincod, moch daear, cwningod.

Roedd rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth ac eithrio adar y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad ac nid oedd yn rhan o'n hadolygiad. Yng Nghymru, nid oes angen trwydded i ladd neu gymryd llwynog, gwiwer lwyd, minc neu gwningen, felly ni fyddai CNC yn dyroddi unrhyw fath o drwydded, mewn gwirionedd, i awdurdodi defnyddio dulliau marwol i reoli'r rhywogaethau hyn. Mae moch daear wedi'u hamddiffyn o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, y mae'r olaf yn pennu fframwaith trwyddedu ar gyfer lladd neu gymryd moch daear.

Trwyddedau cyffredinol a safleoedd gwarchodedig

Crynodeb

- Byddwn yn cadw ein dull presennol o eithrio o gwmpas perthnasedd trwyddedau cyffredinol unrhyw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd wedi'i nodiad am rywogaethau a allai fod yn sensitif i aflonyddwch o weithgareddau trwyddedig, ynghyd â chlustogfa o amgylch pob safle.
- Rydym wedi adolygu sut y defnyddiwyd ein dull o nodi safleoedd gwarchodedig a allai fod yn sensitif yn 2019, ac wedi lleihau nifer y safleoedd na fydd y trwyddedau cyffredinol yn berthnasol iddynt o 198 i 141.

Byddwn yn cadw ein dull presennol o eithrio o gwmpas perthnasedd trwyddedau cyffredinol unrhyw SoDdGA sydd wedi'i nodi am rywogaethau a allai fod yn sensitif i aflonyddwch o ganlyniad i weithgareddau trwyddedig, ynghyd â chlustogfa o amgylch pob safle

SoDdGAau sydd wedi'u nodi am rywogaethau a allai fod yn sensitif i aflonyddwch o weithgareddau trwyddedig

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n cynigion ac yn ein hannog i ddilyn y dull yn Lloegr, lle gellir defnyddio trwyddedau cyffredinol o fewn, ac o amgylch, pob SoDdGA, ond eu bod yn ddarostyngedig i amodau pellach, gan gynnwys gofyniad bod perchennog neu feddiannwr y tir oddi mewn i SoDdGA y byddai'r gweithgaredd trwyddedig yn digwydd ynddo, wedi cael unrhyw ganiatadau angenrheidiol gan Natural England hefyd o dan adran 28E o'r Ddeddf. Roedd rhai yn barnu bod y dull hwn yn gosod llai o faich rheoleiddiol ar ddefnyddwyr. Dadleuwyd hefyd na allai CNC brosesu nifer mawr o geisiadau am drwyddedau penodol yn gyflym ar gyfer pob un o'r safleoedd eithriedig hyn.

Dywedodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi ein cynnig ei bod yn hanfodol osgoi perygl o darfu ar rywogaethau sensitif ar safleoedd gwarchodedig.

Rydym yn parhau i fod o'r farn bod ein dull gweithredu yn eglur ac yn unol â rhwymedigaethau CNC tuag at safleoedd gwarchodedig wrth ddyroddi unrhyw fath o ganiatâd. At hynny, gan fod y rhan fwyaf o SoDdGAau yng Nghymru wedi'u cynnwys o fewn cwmpas ein trwyddedau cyffredinol, nid ydym yn barnu bod ein dull yn llawer mwy beichus o safbwynt rheoleiddiol na'r dull yn Lloegr. Yn y rhan fwyaf o safleoedd gwarchodedig (SoDdGAau a safleoedd Ewropeaidd) yng Nghymru, gellir defnyddio trwyddedau cyffredinol ac nid oes angen caniatâd SoDdGA i weithredu unrhyw gamau a awdurdodir yn briodol o dan drwydded gyffredinol.

Rydym yn deall pryderon ynghylch yr angen i reoli ysglyfaethwyr er mwyn hybu cadwraeth rhai o nodweddion SoDdGAau mewn rhai achosion. Mewn achosion o'r fath, er enghraifft pan fo brain yn ysglyfaethu ar nythod rhywogaethau o adar prin sy'n bridio, gellir gwneud cais am drwyddedau penodol at ddibenion cadwraeth. Ers mis Hydref 2019, pan dynnwyd 198 o SoDdGAau yng Nghymru allan o gwmpas trwyddedau cyffredinol, rydym wedi cael

25 o geisiadau am drwyddedau penodol ar gyfer gweithgareddau a oedd arfer bod o fewn cwmpas y trwyddedau cyffredinol.

Clustogfeydd

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom gynnig cadw clustogfa safonol o 300 metr o amgylch unrhyw safleoedd gwarchoddedig sydd wedi'u heithrio o gwmpas perthnasedd trwyddedau cyffredinol. Ymhlith y prif resymau a roddodd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd y ffaith nad yw'r defnydd o drwyddedau cyffredinol yn peri unrhyw risg i safleoedd gwarchoddedig ac felly bod clustogfeydd yn ddiangen. Dadleuwyd hefyd, yn hytrach na phennu pellter safonol i glustogfeydd, y dylid pennu clustogfeydd pwrpasol o feintiau gwahanol fesul achos, yn ôl sensitifrwydd rhywogaethau gwahanol i sŵn.

Nid ydym wedi ein darbwylo gan y ddadl hon ac rydym yn parhau i fod o'r farn bod pellter safonol o 300 metr yn ddull gweithredu ymarferol sy'n taro'r cydbwysedd priodol rhwng symlrwydd a bod yn ddigon rhagofalus mewn perthynas â'r ystod o nodweddion adar a mamaliaid a allai fod yn sensitif mewn SoDdGA.

Rydym wedi adolygu sut y defnyddiwyd ein dull o nodi safleoedd gwarchoddedig a allai fod yn sensitif yn 2019, ac wedi lleihau nifer y safleoedd na fydd y trwyddedau cyffredinol yn berthnasol iddynt o 198 i 141

Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cwestiynu p'un a oedd rhai SoDdGAau wedi'u heithrio'n ddiangen o gwmpas perthnasedd trwyddedau cyffredinol, ar y sail na chawsant eu dynodi am unrhyw un o'r nodweddion y nodwyd gennym eu bod yn rhai a allai fod yn sensitif i aflonyddwch damweiniol o ganlyniad i weithrediadau a gyflawnir o dan y trwyddedau cyffredinol.

Rydym wedi ailystyried y dadansoddiad a wnaethom i nodi'r safleoedd eithriedig, a chanfuom nifer o safleoedd a oedd, ar sail y fethodoleg a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer nodi safleoedd, wedi'u heithrio o gwmpas perthnasedd trwyddedau cyffredinol yn ddiangen. Canfuom hefyd fod nifer llai o safleoedd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y trwyddedau cyffredinol, y dylent fod wedi'u heithrio yn unol â'n methodoleg.

Felly rydym wedi lleihau'r rhestr o SoDdGAau eithriedig o 198 i 141. Ceir y rhestr lawn y safleoedd yn Atodiad 2. Bydd pob trwydded gyffredinol yn parhau i gynnwys rhestr o'r safleoedd eithriedig ynghyd ag amod sy'n ei gwneud yn glir nad yw'r drwydded yn awdurdodi unrhyw weithred oddi mewn i'r safleoedd hynny nac yn eu clustogfeydd. Bydd y trwyddedau'n parhau i gynnwys dolen i wybodaeth ar-lein am derfynau'r ardaloedd eithriedig.

Dulliau a ddefnyddir ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt

Crynodeb

- Ni fyddwn yn caniatáu defnyddio unrhyw ddulliau marwol a waherddir o dan adran 5 o'r Ddeddf, oni bai bod rhesymau da pam y dylid awdurdodi defnyddio dull gwaharddedig.
- Oni bai bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny, byddwn yn caniatáu defnyddio unrhyw ddull nad yw wedi'i wahardd o dan adran 5 o'r Ddeddf.
- Byddwn yn parhau i ganiatáu defnyddio arfau lled-awtomatig.
- Byddwn yn parhau i ganiatáu defnyddio maglau cawell, yn ddibynnol ar nifer o amodau ychwanegol.
- Byddwn yn caniatáu defnyddio rhwydi dwylo a goleuadau artiffisial i gymryd rhywogaethau targed y tu mewn i adeiladau.
- Byddwn yn adolygu'n barhaus y dulliau a ganiateir/na chaniateir ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt.

Ni fyddwn yn caniatáu defnyddio unrhyw ddulliau marwol a waherddir o dan adran 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, oni bai bod rhesymau da pam y dylid awdurdodi defnyddio dull gwaharddedig

Credwn y dylai unrhyw ddull a ddefnyddir i reoli adar gwyllt fod yn effeithiol o safbwynt cyflawni ei ddiben, yn drugarog (gan leihau trallod i'r rhywogaeth darged ac, yn achos maglau sy'n defnyddio adar denu byw, yn lleihau trallod i'r adar denu cymaint ag y bo modd) ac osgoi, cyn belled ag y bo modd, gwneud niwed damweiniol i rywogaethau eraill drwy aflonyddwch neu sgil-ddalfa, neu i'r amgylchedd yn fwy cyffredinol, megis drwy ollwng sylweddau gwenwynig. Mae llawer o'r dulliau a waherddir o dan adran 5 o'r Ddeddf wedi'u gwahardd am un neu ragor o'r rhesymau hyn, felly bydd angen cyfiawnhau unrhyw benderfyniad gan CNC i'w caniatáu gyda thystiolaeth o'u heffeithiolrwydd, eu hangenrheidrwydd, y lefel dderbyniol o berygl i fywyd gwyllt arall, ac o safbwynt lles anifeiliaid.

Cafwyd cefnogaeth eang i'r egwyddor hon, er y dadleuodd rhai ymatebwyr mai effeithiolrwydd dull ddylai fod yr ystyriaeth bennaf, neu hyd yn oed yr unig ystyriaeth, wrth benderfynu p'un a ddylid ei awdurdodi. Roedd eraill yn dadlau mai'r graddau y mae dull yn drugarog ddylai fod yr ystyriaeth bennaf, neu hyd yn oed yr unig ystyriaeth, wrth benderfynu p'un a ddylid awdurdodi ei ddefnyddio.

Rydym yn parhau i fod o'r farn, mewn egwyddor, na ddylai trwyddedau awdurdodi dulliau o ladd neu gymryd adar gwyllt sydd wedi'u gwahardd yn statudol, oni bai y gellir rhoi cyfiawnhad clir dros eu defnyddio.

Oni bai bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny, byddwn yn caniatáu defnyddio unrhyw ddull nad yw wedi'i wahardd o dan adran 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

O dan y Ddeddf, os dyroddir trwydded sy'n caniatáu lladd neu gymryd aderyn gwyllt, gellir defnyddio unrhyw ddull i wneud hynny oni bai ei fod wedi'i wahardd fel amod o'r drwydded ac os nad yw'n un o'r dulliau gwaharddedig a restrir yn adran 5 o'r Ddeddf.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n helaeth â'r egwyddor y dylid caniatáu i ddull gael ei ddefnyddio o dan drwyddedau adran 16 os nad yw wedi'i wahardd o dan adran 5 o'r Ddeddf. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr y farn hefyd y dylai trwyddedau gynnig hyblygrwydd i ddeiliaid trwydded yn hyn o beth, gan eu galluogi i ddewis o ystod mor eang â phosibl o ddulliau ar gyfer amgylchiadau penodol.

Mewn cyferbyniad, drwy ganiatáu unrhyw beth nad yw wedi'i wahardd yn benodol, roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai technegau newydd a datblygiadau technolegol nas rhagwelwyd pan ddeddfwyd y ddeddfwriaeth yn gyfreithlon, ac y gallent beri problemau difrifol o safbwynt lles anifeiliaid, sgil-ddalfeydd neu fathau eraill o niwed. Awgrymwyd felly y dylai trwyddedau nodi'n union pa ddulliau y gellir eu defnyddio, yn hytrach na chaniatáu unrhyw ddull nad yw wedi'i wahardd.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn rhestru ystod eang o ddulliau gwaharddedig o gymryd neu ladd adar gwyllt, gan gynnwys, er budd lles anifeiliaid, osgoi lladd neu ddal anifeiliaid yn ddiwahân ac osgoi effeithiau damweiniol niweidiol ar yr amgylchedd neu ar iechyd y cyhoedd. O ystyried ehangder y gwaharddiadau hyn, nid ydym wedi ein darbwyllo bod caniatáu unrhyw ddull nad yw wedi'i wahardd yn annerbyniol o beryglus mewn perthynas â'r graddau y gallai dulliau newydd beri canlyniadau andwyol nas rhagwelwyd. Ni roddwyd unrhyw enghreifftiau penodol o ddulliau o'r fath. At hynny, pe bai unrhyw ddulliau newydd neu ddulliau nas rhagwelwyd yn cael eu datblygu ac yn dechrau cael eu defnyddio, gellir ystyried pa mor dderbyniol ydynt o ran lles ac effeithiau damweiniol, a gellir cynnwys darpariaethau mewn trwyddedau, yn ôl yr angen, i wahardd neu osod amodau ar eu defnydd.

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom geisio barn ynghylch p'un a ddylai unrhyw ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd ar hyn o bryd gael eu gwahardd rhag cael eu defnyddio yn erbyn adar gwyllt. Mynegwyd pryderon o safbwynt lles anifeiliaid ynghylch y defnydd o arfau aer i saethu adar gwyllt, gan nodi bod arfau o'r fath yn llai pwerus yn gyffredinol nag arfau tanio eraill ac, o ganlyniad, y gallant beri mwy o risg o anafu adar a dargedir yn hytrach na'u lladd yn gyflym. Rydym yn cydnabod y pryder, ond nid yw defnyddio arfau aer yn ddull gwaharddedig a deallwn eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth. Byddai angen inni gael dealltwriaeth well o oblygiadau cyfyngu neu wahardd eu defnydd cyn gwneud hynny. Fodd bynnag, byddwn yn cynnwys amod mewn trwyddedau sy'n ei gwneud yn ofynnol sicrhau na ddefnyddir arf tanio i saethu adar ond pan eu bod o fewn cyrraedd effeithiol yr arf tanio.

Byddwn yn parhau i ganiatáu defnyddio arfau lled-awtomatig

Gwaherddir defnyddio arfau tanio lled-awtomatig o dan adran 5 o'r Ddeddf, felly nid yw'n gyfreithlon defnyddio'r dull hwn i ladd adar gwyllt oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol

o dan drwyddedau. Mae trwyddedau (cyffredinol a phenodol) sy'n awdurdodi eu defnydd wedi'u dyroddi ers blynyddoedd lawer ac mae'n amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod defnyddwyr trwyddedau o'r farn bod y dull hwn yn effeithiol gan ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud bod llawer o reolwyr tir sy'n gweithredu dulliau marwol i reoli bywyd gwyllt yn ffafrio reiffiau lled-awtomatig fel eu dewis cyntaf.

Ar wahân i rai ymatebwyr a fynegodd y farn na ddylai CNC drwyddedu lladd adar gwyllt o gwbl, nid oedd unrhyw ddadleuon sylweddol yn anghytuno'n benodol â'r cynnig y dylai CNC barhau i ganiatáu defnyddio arfau lled-awtomatig. Yn benodol, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth na dadleuon i ni sy'n dangos bod arfau lled-awtomatig yn cymharu'n anffafriol â mathau eraill o arfau tanio o ran eu heffeithiolrwydd, lles anifeiliaid neu risgiau i rywogaethau nad ydynt yn rhai targed. Felly byddwn yn parhau i drwyddedu eu defnydd fel dull o ladd adar gwyllt.

Byddwn yn parhau i ganiatáu defnyddio maglau cawell, yn ddibynnol ar nifer o amodau ychwanegol

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn gwahardd defnyddio maglau (o unrhyw fath), felly nid yw'n gyfreithlon defnyddio'r dull hwn i ladd adar gwyllt oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol o dan drwyddedau. Mae trwyddedau (cyffredinol a phenodol) sy'n awdurdodi eu defnyddi wedi'u dyroddi ers blynyddoedd lawer ac mae'n amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod defnyddwyr trwyddedau o'r farn bod y dull hwn yn effeithiol a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr na ddylai CNC awdurdodi defnyddio maglau cawell, gan farnu eu bod yn anhrugarog, yn enwedig y rheini lle defnyddir aderyn denu byw sydd wedi'i gyfyngu yn y fagl, yn aml am gyfnod sylweddol o amser, er mwyn denu adar targed i mewn i'r fagl. Y prif wrthwynebiad arall i faglau cawell a fynegwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y risg o ddal neu anafu rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed yn anfwriadol, gan gynnwys rhywogaethau eraill o adar gwyllt, mamaliaid gwyllt neu anifeiliaid anwes domestig. Rydym yn cydnabod y pryderon hyn ond rydym hefyd yn cydnabod bod maglau cawell, pan gânt eu defnyddio'n gywir, yn ddull effeithiol o reoli rhai rhywogaethau o adar, a gwneir defnyddir helaeth ohonynt. Felly rydym yn parhau i fod o'r farn y dylem barhau i ganiatáu defnyddio maglau cawell, ond y bydd eu defnydd yn ddibynnol ar nifer o amodau a chyngor ychwanegol, fel y nodir yn yr adran nesaf.

Byddwn yn caniatáu defnyddio rhwydi dwylo a goleuadau artiffisial i gymryd rhywogaethau targed y tu mewn i adeiladau

Gwaherddir defnyddio unrhyw fath o rwyd i gymryd adar gwyllt o dan adran 5 o'r Ddeddf ac, yn yr un modd, ddefnyddio unrhyw ddyfais i daflu golau neu i ddallu aderyn targed.

Dywedodd nifer o ymatebwyr wrthym y gall fod angen defnyddio'r dulliau hyn i ddal neu ladd adar yn effeithiol y tu mewn i adeiladau pan fo dulliau eraill yn anymarferol neu'n aneffeithiol. Rydym yn cydnabod y pryderon hyn ac felly, lle bo'n berthnasol, rydym yn bwriadu caniatáu i'r dulliau hyn gael eu defnyddio i ladd neu gymryd adar y tu mewn i adeiladau, gan gynnwys o dan GL001 (atal difrod difrifol) a GL002 (diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd).

Byddwn yn adolygu'n barhaus y dulliau a ganiateir/na chaniateir ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt

Mae'n amlwg o'r ymatebion i'n hymgyngoriad a'n galwad am dystiolaeth, yn ogystal â thrafodaethau â rhanddeiliaid, fod bylchau sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd gwahanol ddulliau o reolaeth farwol, eu goblygiadau i les anifeiliaid a'r risgiau o effeithiau anfwriadol megis aflonyddwch, anaf neu sgil-ddalfa rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed. Er enghraifft, codwyd pryderon yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y defnydd o arfau aer i saethu adar gwyllt, yn enwedig y risg uwch, o gymharu â mathau eraill mwy pwerus o arfau tanio, o achosi anaf yn hytrach na sicrhau lladdiad cyflym. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth gadarn o natur wirioneddol y risg hon, na beth fyddai'r goblygiadau pe baem yn penderfynu na ddylid caniatáu defnyddio arfau awyr (nad ydynt yn ddull gwaharddedig ar hyn o bryd) – ar drwyddedau i ladd adar gwyllt mwyach.

Wrth i dystiolaeth newydd neu well ddod i'r amlwg dros amser, credwn y dylid ei hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid awdurdodi dulliau ychwanegol, neu a ddylid cwtogi'r dulliau a awdurdodir ar hyn o bryd neu gyflwyno amodau pellach iddynt.

Cyn awdurdodi unrhyw ddull marwol newydd neu arloesol o reoli adar gwyllt, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai gael ei asesu gan banel annibynnol sy'n gymwys i ystyried ei effeithiolrwydd, ei drugarowgrwydd a'r risgiau i fywyd gwyllt arall neu i'r amgylchedd ehangach. Yn y cyd-destun hwn, gwnaed cymhariaeth â'r prosesau cadarn sydd ar waith ar gyfer cymeradwyo unrhyw ddulliau neu fathau newydd o offer a ddefnyddir i drin adar byw at ddibenion gwyddonol. Rydym yn cytuno nad oes unrhyw gyfiawnhad dros beidio â mabwysiadu trylwyredd tebyg wrth ystyried defnyddio dulliau rheolaeth farwol newydd, felly byddwn yn ystyried trefniadau priodol ar gyfer hyn ymhellach. Oherwydd bod angen arbenigedd, yn enwedig mewn perthynas â lles anifeiliaid, credwn y dylai'r trefniadau hynny fod ar wahân i'r fframwaith chwe blynedd y bwriadwn ei roi ar waith ar gyfer adolygu trwyddedau cyffredinol, fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

Defnyddio maglau cawell i reoli adar gwyllt

Crynodeb

- Mewn unrhyw drwydded benodol neu gyffredinol yr ydym yn ei dyroddi sy'n caniatáu defnyddio maglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol, byddwn yn pennu'r mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio.
- Byddwn yn parhau i ganiatáu defnyddio bwyd cig ar gyfer adar denu, ond os defnyddir bwyd cig ar gyfer adar denu, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol (fel amod trwydded) bod rhaid ei dorri'n fân.
- Byddwn yn cynghori na ddylid defnyddio abwyd cig oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.
- Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol (fel amod trwydded) bod unrhyw adar o'r rhywogaeth darged sydd wedi'u dal yn cael eu lladd allan o olwg adar eraill, ac eithrio mewn perthynas â maglau lluosog.
- Byddwn yn cynghori y dylai defnyddwyr maglau lluosog wneud pob ymdrech resymol bob amser i ladd adar allan o olwg adar eraill. Fodd bynnag, byddwn yn caniatáu disgresiwn i ladd adar sydd wedi'u dal o fewn golwg adar eraill, pan fo defnyddwyr yn barnu y byddai unrhyw oedi a thrin ychwanegol a achosir o ganlyniad i symud o'r golwg i ladd pob aderyn yn achosi mwy o drallod.
- Bydd yn ofynnol gennym (fel amod trwydded) fod adar o'r rhywogaeth darged sydd wedi'u dal yn cael eu lladd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu darganfod.
- Byddwn yn pennu (fel amod trwydded) mai'r cyfnod hwyaf a ganiateir rhwng archwiliadau maglau cawell yw 25 awr, ac yn cynghori y dylai maglau gael eu harchwilio'n amlach, ac yng ngolau dydd lle bynnag y bo modd.
- Byddwn yn pennu (fel amod trwydded) y materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn ystod pob archwiliad o faglau cawell, gan gynnwys presenoldeb unrhyw adar byw neu farw yn y fagl, rhyddhau unrhyw sgil-ddalfa, gweithrediad y fagl a lles yr adar denu.
- Ni fyddwn yn awdurdodi unrhyw fath o glymu, dallu neu anafu (gan gynnwys tocio adenydd) adar denu.
- Er mwyn lleihau'r risg o sgil-ddalfeydd, byddwn yn cynghori bod angen ystyried lleoliad maglau'n ofalus.
- Mewn unrhyw drwyddedau penodol neu gyffredinol a ddyroddwn sy'n awdurdodi defnyddio maglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol, byddwn yn cynnwys set gyflawn o amodau safonol sy'n ymwneud â defnyddio maglau cawell, yn hytrach na chyhoeddi trwydded annibynnol neu gyfres o amodau ar wahân.
- Nid ydym yn bwriadu cyflwyno system gofrestru orfodol ar gyfer maglau cawell ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i gadw llygad ar yr anghenion a'r manteision o wneud hynny.

Byddwn yn gweithredu cyfres o fesurau i gryfhau'r broses o reoleiddio'r defnydd o faglau cawell i reoli adar gwyllt, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio adar denu byw, yn benodol, er mwyn lleihau'r risg o sgil-ddalfeydd ac er lles anifeiliaid.

Mewn unrhyw drwydded benodol neu gyffredinol yr ydym yn ei dyroddi sy'n caniatáu defnyddio maglau cawell i reoli adar ar gyfer rheolaeth farwol, byddwn yn pennu'r mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio

Ychydig o anghytuno a gafwyd, os o gwbl, â'n cynnig i bennu'r mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio mewn unrhyw drwydded benodol neu gyffredinol a ddyroddwn i ganiatáu defnyddio maglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylai'r mathau o faglau y gellir eu defnyddio gael eu hadolygu'n rheolaidd ac y dylid cael proses eglur a thryloyw ar gyfer ychwanegu dyluniadau newydd neu arloesol at y rhestr o ddulliau cymeradwy, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn am eu heffeithiolrwydd, eu goblygiadau o ran lles a'r risg o sgil-ddalfeydd. Rydym yn cytuno. Yn yr un modd ag unrhyw ddull arall o ladd neu gymryd adar gwyllt, byddai'r penderfyniad i gymeradwyo unrhyw faglau newydd neu arloesol yn cael ei lywio gan gyngor y panel annibynnol y cyfeiriwyd ato yn yr adran flaenorol.

Mae'r mathau o faglau y byddwn yn eu caniatáu fel a ganlyn:

- maglau cawell lluosog â drws agored;
- maglau Larsen (â rhai cyfyngiadau sydd wedi'u hegluro isod);
- maglau Larsen mate (a elwir hefyd yn faglau clam);
- maglau Larsen pod;
- maglau colomennod.

Byddwn yn eithrio o ddiffiniad maglau Larsen, unrhyw faglau lle mae'r adran ddal wedi'i gosod yn union uwchben adran yr aderyn denu.

Bydd angen gwneud cais am drwydded benodol er mwyn defnyddio unrhyw gynllun magl heblaw'r rhai a restrir uchod.

Byddwn yn parhau i ganiatáu defnyddio cig ar gyfer adar denu, ond os defnyddir cig ar gyfer adar denu, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol (fel amod trwydded) bod rhaid ei dorri'n fân

Y rheswm dros ofyn am dorri cig yn fân ar gyfer adar denu yw ei wneud yn llai deniadol i adar ysglyfaethus a allai gael eu dal yn y fagl yn anfwriadol.

Y prif wrthwynebiadau i'r cynnig hwn oedd ei fod yn rhy gymhleth ac y gallai arwain at ddryswch, ac y dylid caniatáu i adar denu fwydo mewn ffordd sydd mor naturiol â phosibl ac felly y dylid caniatáu defnyddio cig heb ei dorri'n fân, gan gynnwys celanedd, fel bwyd ar gyfer adar denu.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn bod ei gwneud yn ofynnol torri'n fân unrhyw fwyd i adar denu sy'n seiliedig ar gig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng lles yr adar denu a lleihau'r risg o ddal adar ysglyfaethus yn anfwriadol. Nid ydym wedi ein darbwyllo gan y ddadl y bydd hyn yn rhy gymhleth neu ddryswyd i'w gynnwys fel amod. Byddwn yn ystyried yn ofalus y modd y caiff yr amod ei fynegi er mwyn sicrhau ei fod mor eglur a diamwys â phosibl.

Nid ydym ychwaith wedi ein darbwyllo gan ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn dadlau bod darparu cig neu gelanedd heb ei dorri'n fân fel bwyd ar gyfer yr adar denu yn angenrheidiol er eu lles. Mae'r holl rywogaethau sy'n cael eu defnyddio fel adar denu fel arfer yn borthwyr cyffredinol gyda deiet sy'n naturiol amrywiol, ac nid ydym yn credu y byddent yn profi trallod ychwanegol drwy gael cig wedi'i dorri'n fân neu fwyd heblaw cig yn hytrach na chig neu gelanedd heb ei dorri'n fân.

Byddwn yn cynghori na ddylid defnyddio abwyd cig oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol

Roedd rhywfaint o gefnogaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'n cynnig i wahardd y defnydd o abwyd sy'n seiliedig ar gig mewn maglau cawell, yn bennaf er mwyn lleihau'r risg o sgil-ddalfa, yn enwedig rhywogaethau o adar ysglyfaethus. Fodd bynnag, cododd ymgynghoreion eraill bryderon bod gwahardd abwyd cig yn llwyr yn anghymesur a diangen. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai leihau effeithiolrwydd maglau cawell yn sylweddol, yn enwedig y rhai nad ydynt yn defnyddio adar denu, ac yn enwedig ar adegau o'r flwyddyn pan fydd y rhywogaeth darged yn chwilio am gig yn hytrach na mathau eraill o fwyd, er enghraifft yn y gaeaf cyn bod wyau ar gael yn naturiol.

Er ein bod yn parhau i fod o'r farn mai abwyd nad yw'n seiliedig ar gig yw'r dewis gorau o ran lleihau'r risg o sgil-ddalfa, rydym yn derbyn y gallai fod amgylchiadau pan fydd angen defnyddio abwyd cig, gan gynnwys, er enghraifft, er mwyn dal aderyn i'w ddefnyddio fel aderyn denu. Felly byddwn yn cynnwys cyngor mewn trwyddedau na ddylid defnyddio abwyd cig ond pan fo angen gwneud hynny. Yn yr un modd â defnyddio bwyd sy'n seiliedig ar gig i fwydo adar denu, er mwyn lleihau pa mor ddeniadol yw abwyd i rywogaethau o adar ysglyfaethus, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol, fel amod, os defnyddir abwyd cig bod rhaid iddo fod wedi'i dorri'n fân.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol (fel amod trwydded) bod unrhyw adar o'r rhywogaeth darged sydd wedi'u dal yn cael eu lladd allan o olwg adar eraill, ac eithrio mewn perthynas â maglau lluosog

Roedd barn yr ymatebwyr yn amrywio ar angenrheidrwydd y cynnig hwn o safbwynt lles anifeiliaid.

Ni ddarparwyd unrhyw ddadleuon na thystiolaeth gref i gefnogi'r safbwynt nad yw adar deallus fel brain yn dioddef trallod ychwanegol o weld adar eraill, gan gynnwys adar o'r un rhywogaeth, yn cael eu lladd gan bobl. Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith, o dan god ymarfer Llywodraeth y DU ar gyfer defnyddio anifeiliaid mewn gweithdrefnau gwyddonol, pan fo hynny'n ymarferol ac yn briodol, y dylid lladd anifeiliaid rywle nad oes anifeiliaid eraill yn bresennol¹. Felly ar ôl pwysu a mesur, rydym yn parhau i fod o'r farn, yn absenoldeb tystiolaeth glir y naill ffordd na'r llall, bod lladd yr adar sydd wedi'u dal allan o olwg yr aderyn denu yn debygol o leihau trallod diangen i'r aderyn denu.

Teimlai rhai o'r ymgynghoreion fod hwn yn ofyniad anymarferol ac y gallai gynyddu trallod i'r aderyn sydd wedi'i ddal pe bai'r broses o'i dynnu o olwg yr aderyn denu yn ymestyn yr amser o'i drafod. Fodd bynnag, yn achos maglau dal unigol sy'n cael eu defnyddio'n gywir,

¹ [Code of Practice: Animals \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk), gweler tudalen 78.

rydym o'r farn y dylai fod yn bosibl tynnu aderyn sydd wedi'i ddal o'r fagl yn gyflym, troi i ffwrdd o'r aderyn denu a lladd yr aderyn ar unwaith.

Byddwn yn cynghori y dylai defnyddwyr maglau lluosog wneud pob ymdrech resymol bob amser i ladd adar allan o olwg adar eraill. Fodd bynnag, byddwn yn caniatáu disgresiwn i ladd adar sydd wedi'u dal o fewn golwg adar eraill, pan fo defnyddwyr yn barnu y byddai unrhyw oedi a thrin ychwanegol a achosir gan symud o'r golwg i ladd pob aderyn yn achosi mwy o drallod

Ni ddarparwyd unrhyw ddadleuon na thystiolaeth mewn unrhyw un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n newid ein barn, yn achos maglau lluosog, mewn rhai sefyllfaoedd, y gallai pennu gofyniad i ladd pob aderyn sydd wedi'i ddal allan o olwg adar eraill achosi mwy, yn hytrach na llai o drallod i'r adar denu ac i'r adar sydd wedi'u dal o hyd, o ganlyniad i gael eu trafod am fwy o amser. Felly byddwn yn caniatáu i ddefnyddwyr maglau arfer disgresiwn wrth benderfynu ar ba ddull sydd orau. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod lles anifeiliaid a lleihau'r trallod i adar sydd wedi'u dal ac unrhyw adar denu yn hollbwysig yn y cyd-destun hwn, a hyd yn oed yn achos maglau lluosog rydym o'r farn bod celu'r weithred o ladd pob aderyn rhag yr adar sy'n weddill yn bosibl. Felly, er na fyddwn yn gosod amod, byddwn yn cyhoeddi cyngor y dylid gwneud ymdrech resymol i ladd adar allan o olwg adar eraill ym mhob achos wrth ddefnyddio maglau lluosog.

Bydd yn ofynnol gennym (fel amod trwydded) fod adar a o'r rhywogaeth darged wedi'u dal yn cael eu lladd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu darganfod

Er bod rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn anghytuno y dylid lladd adar o'r rhywogaeth darged sydd wedi'u dal cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu darganfod, nid oedd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a roddodd unrhyw resymau dros anghytuno.

Wrth gytuno â'r cynnig, nododd rhai o'r ymatebwyr o'r diwydiant difa plâu fod hyn eisoes yn arfer gorau ac felly y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys fel amod trwydded.

Ac ystyried hyn ynghyd â'r mesurau eraill yr ydym yn bwriadu eu gweithredu o ran lladd adar sydd wedi'u dal (gweler uchod), credwn ei fod yn fesur pwysig i leihau trallod adar sy'n cael eu dal.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai CNC ddiffinio ystyr "cyn gynted ag y bo'n ymarferol". Fodd bynnag, nid ydym yn meddwl y byddai'n ymarferol diffinio hyn yn y drwydded o ystyried yr ystod eang o sefyllfaoedd y mae trwyddedau cyffredinol yn berthnasol iddynt. Rydym o'r farn bod angen gadael hyn i ddisgresiwn defnyddiwr y drwydded yn ei amgylchiadau penodol.

Byddwn yn pennu (fel amod trwydded) mai'r cyfnod hwyaf a ganiateir rhwng archwiliadau maglau cawell yw 25 awr, ac yn cynghori y dylai maglau gael eu harchwilio'n amlach, ac yng ngolau dydd lle bynnag y bo modd

Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, y prif reswm a roddwyd dros anghytuno â'n cynnig i bennu, fel amod trwydded, mai'r cyfnod hwyaf a ganiateir rhwng archwiliadau maglau cawell yw 25 awr, oedd y gallai fod ystod eang o amgylchiadau annisgwyl, y tu hwnt i reolaeth y deiliaid trwydded, a allai ei gwneud hi'n anodd iawn neu'n amhosibl cydymffurfio â'r amod hwn. Mae enghreifftiau yn cynnwys tywydd garw, cerbyd yn torri i lawr neu salwch. Yn rhai o'r ymatebion, nodwyd barn y dylai amllder archwiliadau fod yn ôl disgrisiwn y deiliaid trwydded yn hytrach na'i fod wedi'i bennu fel amod.

Cafwyd ymatebion eraill i'r ymgynghoriad a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn ar y sail bod 25 awr yn gyfnod rhy hir ac y dylid archwilio maglau'n amlach er lles anifeiliaid.

Rydym yn cytuno y gallai sefyllfaoedd godi pan fo archwilio magl o fewn y cyfnod o 25 awr a nodir yn broblemus, er gwaethaf bwriadau gorau'r deiliaid trwydded. Fodd bynnag, rydym yn amau y byddai achosion o'r fath yn digwydd yn gymharol anaml. Hefyd, pe methwyd cydymffurfio â'r amod hwn, câi amgylchiadau arbennig eu hystyried pe bai unrhyw achos neu gamau yn cael eu cymryd yn erbyn y defnyddiwr. Rydym o'r farn y byddai'r dull hwn yn fwy priodol na pheidio â phennu'r cyfnod hwyaf cyn archwilio. Rydym hefyd o'r farn y dylai defnyddwyr maglau cawell wneud pob ymdrech resymol i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â'r amod hwn.

Mewn perthynas â'r farn y dylid archwilio maglau cawell yn amlach na phob 25 awr, rydym yn cytuno bod archwiliadau amlach yn ddymunol a byddwn yn cynnwys cyngor i'r perwyl hwnnw yn y trwyddedau. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwyllo y dylai arolygiadau amlach fod yn orfodol. Gallai pennu gofynion i ddefnyddwyr archwilio maglau fwy nag unwaith y dydd fod yn anymarferol ac yn afresymol o feichus i lawer o ddefnyddwyr, a byddai'n debygol o arwain at lawer mwy o achosion o dorri'r amod oherwydd amgylchiadau arbennig sy'n lleihau bai. At hynny, credwn mai'r rheswm pennaf dros bennu'r cyfnod hwyaf cyn archwilio yw lles anifeiliaid. Rydym o'r farn y dylai'r mesurau eraill yr ydym yn eu gweithredu o ran defnyddio maglau cawell helpu i leddfu'r tralod a achosir i adar denu ac adar sy'n cael eu dal.

Byddwn yn pennu (fel amod trwydded) y materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn ystod pob archwiliad o faglau cawell, gan gynnwys presenoldeb unrhyw adar byw neu farw yn y fagl, rhyddhau unrhyw sgil-ddalfa, gweithrediad y fagl a lles yr adar denu

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn cytuno â'n cynnig i nodi'r materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn ystod pob archwiliad o faglau cawell, yn ogystal â chefnogi'r rhesymeg a roddwyd yn y papur ymgynghori, hefyd yn amlygu'r set safonol o amodau gan Defra ar gyfer defnyddio maglau cawell i reoli adar gwyllt (GL33²) a

² [Trapping wild birds: standard licence conditions \(GL33\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

dadleuwyd ynddynt y dylai CNC fabwysiadu amod tebyg yn ymwneud ag archwiliadau maglau cawell.

Dywedodd rhai o'r rheini a oedd yn anghytuno â'n cynnig, ei fod yn ddiangen oherwydd bod rhwymedigaethau defnyddwyr maglau cawell tuag at les adar denu ac adar sydd wedi'u dal eisoes wedi'u nodi'n ddigonol mewn deddfwriaeth, yn benodol Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Dadleuwyd ymhellach bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr maglau yn gyfarwydd â'r gofynion hyn ac yn cydymffurfio â hwy, felly nid oes angen amodau.

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006, yr ydym yn cytuno ei bod yn berthnasol i adar a gedwir mewn maglau cawell, yn pennu rhwymedigaethau cyffredinol i beidio ag achosi dioddefaint diangen i anifeiliaid sydd o dan reolaeth pobl, ac i sicrhau eu lles. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y darpariaethau statudol hyn yn ei gwneud yn ddiangen cynnwys amodau penodol sy'n llywodraethu'r defnydd o faglau cawell, gan gynnwys gofynion i sicrhau bod archwiliadau maglau cawell yn cael eu cynnal yn ddigon trylwyr i sicrhau bod y trallod a brofir gan adar neu anifeiliaid eraill sydd wedi'u dal yn y maglau yn cael ei leihau cymaint â phosibl. At hynny, hyd yn oed os yw'n wir bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr maglau yn cydymffurfio'n llwyr â deddfwriaeth lles anifeiliaid (ac nid ydym yn ymwybodol o dystiolaeth i gefnogi neu wrthbrofi'r honiad hwnnw), nid ydym yn credu bod hynny'n golygu bod amodau sy'n ymwneud â llesiant anifeiliaid yn ddiangen. Rydym yn dadlau i'r gwrthwyneb mewn gwirionedd: pan fo arferion da yn gyffredin ac yn cael eu hyrwyddo gan sefydliadau cyfrifol, ond nad ydynt yn cael eu defnyddio gan bawb o bosibl, credwn y gall amodau gorfodol fod yn ddefnyddiol o ran ymestyn defnydd arferion da.

Felly mewn unrhyw drwydded a ddyroddwn sy'n awdurdodi defnyddio maglau cawell, rydym yn bwriadu cynnwys amod sy'n pennu bod rhaid mynd i'r afael â'r materion canlynol yn ystod pob archwiliad:

- p'un a oes unrhyw anifail neu aderyn wedi'i ddal;
- rhywogaeth a chyflwr ffisegol unrhyw anifail neu aderyn sydd wedi'i ddal;
- cyflwr unrhyw aderyn denu sydd yn y fagl;
- p'un a oes gan unrhyw aderyn denu yn y fagl fynediad at glwyd addas a digon o fwyd a dŵr o ansawdd da;
- p'un a yw'r fagl yn gweithio'n effeithiol.

Ni fyddwn yn awdurdodi unrhyw fath o glymu, dallu neu anafu (gan gynnwys tocio adenydd) adar denu

Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno â'n cynnig na ddylai CNC ganiatáu defnyddio adar denu y mae eu hadenydd wedi'u tocio. Tynnwyd sylw at y ffaith bod tocio adenydd yn fath o anafu a bod adran 5 o'r Ddeddf yn gwahardd defnyddio adar sydd wedi'u hanafu fel adar denu, ac felly mae'n anghyfreithlon oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol o dan drwyddedau. Dadleuwyd nad yw anafu adar denu yn gwneud maglu â chawell yn fwy effeithiol, ond a'i fod yn cynyddu'r trallod y mae'r aderyn denu yn ei ddioddef yn sylweddol, er y dadleuodd rhai ymatebwyr bod tocio adenydd yn tawelu'r aderyn denu ac yn lleihau'r risg y bydd yn anafu ei hun tra'i fod yn y fagl.

Yn yr un modd â'r cwestiwn a yw adar yn profi trallod os ydynt yn gweld pobl yn lladd adar eraill, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth gadarn o'r effeithiau ar les o anafu neu

glymu adar. Fodd bynnag, gwaherddir defnyddio adar sydd wedi'u hanafu fel adar denu oni bai ei fod wedi'i awdurdodi ac, yn absenoldeb tystiolaeth y naill ffordd neu'r llall, credwn ei bod yn rhesymol ystyried bod unrhyw fath o anafu neu glymu adar denu mewn magl yn fwy tebygol o ddwysáu trallod nag ydyw i'w leihau. Gan nad oes gan yr arferion hyn unrhyw fanteision amlwg o ran effeithiolrwydd maglau cawell, nid ydym yn ystyried bod cyfiawnhad dros eu defnyddio. Felly, yn unol â'n hegwyddor mai dim ond lle y gellir ei gyfiawnhau y dylid caniatáu dull gwaharddedig, rydym yn bwriadu peidio ag awdurdodi defnyddio adar denu sydd wedi'u hanafu (gan gynnwys adar y mae eu hadenydd wedi'uocio) nac adar denu sydd wedi'u clymu.

Er mwyn lleihau'r risg o sgil-ddalfeydd, byddwn yn cyngori bod angen ystyried lleoliad maglau'n ofalus

Cododd nifer o'r ymatebwyr bwyntiau ynghylch lleoliad maglau a sut y gallai eu gosod yn ofalus leihau'r risg o ddal neu niweidio rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed, a'r risg o niwed i'r fagl, neu o ymyrraeth gan anifeiliaid neu bobl.

Rydym yn cytuno â'r sylwadau hyn. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau a lleoliadau lle gallai fod angen defnyddio maglau ynddynt, rydym o'r farn y byddai'n anymarferol cynnwys amodau i'r trwyddedau sy'n ymwneud â lleoliad maglau. Credwn hefyd y bydd defnyddwyr maglau cyfrifol am leihau'r risg o sgil-ddalfeydd a difrod i faglau neu ymyrraeth â nhw beth bynnag, er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl wrth ddal y rhywogaeth darged. Felly byddwn yn cyngori mewn trwyddedau y dylid ystyried lleoliad maglau yn ofalus er mwyn lleihau'r risg o sgil-ddalfeydd a difrod i faglau neu ymyrraeth â nhw.

Mewn unrhyw drwyddedau penodol neu gyffredinol a ddyroddwn sy'n awdurdodi defnyddio maglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol, byddwn yn cynnwys set gyflawn o amodau safonol sy'n ymwneud â defnyddio maglau cawell, yn hytrach na chyhoeddi trwydded annibynnol neu gyfres o amodau ar wahân

Yn ein papur ymgynghori, gwnaethom gynnig mabwysiadu dull tebyg i'r un a weithredir yn Lloegr, a chyhoeddi dogfen ar wahân yn cynnwys yr holl amodau a chyingor ynghylch defnyddio maglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt, a fyddai'n gymwys ochr yn ochr ag unrhyw drwydded sy'n awdurdodi defnyddio maglau cawell.

Er bod llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn roedd rhai yn anghytuno hefyd, gyda phryderon yn cael eu codi am faich dogfennaeth ychwanegol, a'r ffaith y byddai'n well gan ddefnyddiwr trwydded pe bai'r holl amodau wedi'u cynnwys ym mhob trwydded fel bod yr wybodaeth i gyd mewn un lle.

Nid ydym wedi ein darbwylo y byddai set safonol o amodau sy'n rheoleiddio defnyddio maglau cawell ar wahân yn achosi baich neu gymhlethdod ychwanegol sylweddol i ddefnyddwyr trwyddedau o gymharu â chynnwys yr holl amodau a chyingor gofynnol ar gyfer maglau cawell ym mhob trwydded. Fodd bynnag, oherwydd yr ymddengys mai'r dull hwn oedd yr opsiwn a ffeirir ymhlith defnyddwyr trwyddedau, rydym yn fodlon nodi amodau defnyddio maglau cawell ym mhob trwydded lle bo'n berthnasol. Bydd hyn yn golygu y

bydd pob trwydded a ddyroddwn sy'n awdurdodi defnyddio maglau cawell i reoli adar gwyllt yn cynnwys yr holl amodau a chyingor manwl ynghylch defnyddio maglau cawell yr ystyriwn ei bod yn angenrheidiol eu cynnwys er lles anifeiliaid ac i osgoi sgil-ddalfeydd.

Nid ydym yn bwriadu cyflwyno system gofrestru orfodol ar gyfer maglau cawell ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i gadw llygad ar yr anghenion a'r manteision o wneud hynny

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom esbonio bod trwyddedau cyffredinol yng Nghymru, tan yn ddiweddar, yn cynnwys argymhelliad (yn hytrach nag amod) y dylai defnyddwyr maglau cawell gysylltu â swyddog bywyd gwyllt eu heddlu lleol i gael cod adnabod unigryw a gosod tagiau ar drapiau gyda'r cod hwnnw a manylion cyswllt y swyddog bywyd gwyllt wedi'u nodi arnynt. Yn ymarferol, ychydig iawn o ddefnyddwyr a wnâi hyn ac nid ydym yn ymwybodol bod gan unrhyw un o heddluoedd Cymru gynllun gweithredol ar waith. Tynnwyd yr argymhelliad oddi wrth y rhan fwyaf o'r trwyddedau yn 2019.

Gwnaethom geisio barn yn yr ymgynghoriad ynglŷn â ph'un a ddylid ei gwneud yn ofynnol cofrestru maglau a ddefnyddir i reoli adar gwyllt. Cafwyd hollt amlwg ym marn yr ymatebwyr. Roedd y rhai a oedd o blaid hyn yn nodi'r pwysigrwydd o allu adnabod defnyddwyr maglau mewn unrhyw gamau gorfodi sy'n ymwneud â chamddefnyddio maglau yn ddiotal neu'n fwriadol. Roedd y rheini a oedd yn erbyn cynllun cofrestru gorfodol yn dadlau nad oedd tystiolaeth o faglau'n cael eu defnyddio mewn ffordd amhriodol yn eang ac felly ni chafwyd tystiolaeth bod graddfa'r broblem yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno'r hyn y barnwyd ei fod yn fiwrocratiaeth ychwanegol ddigroeso.

Rydym o'r farn nad oes digon o dystiolaeth o broblem yng Nghymru ar hyn o bryd y byddai system gofrestru maglau cawell yn ateb priodol iddi. Mae diffyg cydymffurfio ag amodau'r drwydded a defnydd anghyfreithlon o faglau yn cael eu nodi'n aml fel cyfiawnhad dros gofrestru maglau cawell, ond nid yw'n glir sut y byddai cofrestru'n mynd i'r afael â'r problemau hyn, er enghraifft pe bai unigolion sydd eisoes yn barod i ddefnyddio maglau cawell yn anghyfreithlon yn methu â chydymffurfio â gofynion cofrestru.

Rydym yn parhau i fod o'r farn mai'r dull gorau o weithredu ar hyn o bryd yw cadw llygad ar y cynllun cofrestru maglau sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd.

Pwyntiau ychwanegol ar ddefnyddio maglau cawell

Clymu maglau

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon am y peryglon sy'n codi wrth i faglau cawell gael eu llusgo ymaith os yw rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed yn cael eu dal. Mae hyn berthnasol i faglau Larsen mate a Larsen pod yn benodol.

Rydym yn rhannu'r pryderon hynny, ac felly rydym yn bwriadu cynnwys amod trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol bod maglau Larsen mate a Larsen pod yn cael eu clymu er mwyn lleihau'r risg o gael eu llusgo ymaith os caiff rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed eu dal.

Cymhwysedd defnyddwyr maglau

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i weithredu maglau cawell yn ddiogel ac yn drugarog.

Mae pob defnyddiwr maglau cawell eisoes yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth llesiant anifeiliaid. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y risgiau a berir, yn enwedig i les anifeiliaid, os nad yw maglau cawell yn cael eu defnyddio'n iawn. Am y rheswm hwn rydym yn bwriadu bod yn fwy rhagnodol ynghylch defnyddio maglau cawell, drwy gynnwys ystod o amodau trwydded a chynghor ychwanegol.

Amseru defnyddio maglau

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch lles adar denu ac adar neu anifeiliaid sydd wedi'u dal yn ystod cyfnodau o dywydd eithafol.

Rydym yn cytuno y dylai lles yr adar denu ac unrhyw adar neu anifeiliaid sydd wedi'u dal fod yn ystyriaeth allweddol i unrhyw un sy'n defnyddio maglau cawell. Bwriad sawl un o'r mesurau newydd a nodir uchod yw lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl ar les anifeiliaid sy'n gysylltiedig â defnyddio maglau, megis darparu bwyd a dŵr i adar denu, y gofynion sy'n ymwneud ag archwilio maglau, a'r dull o ladd adar sydd wedi'u dal. O ran y pryderon lles ychwanegol a godwyd ynghylch defnyddio maglau yn ystod cyfnodau o dywydd eithafol, nid ydym o'r farn y byddai'n ymarferol rhagnodi mewn amodau ym mha dywydd y caniateir neu na chaniateir defnyddio maglau. Fodd bynnag, byddwn yn cynghori na ddylid defnyddio maglau yn ystod cyfnodau o dywydd poeth neu oer iawn, neu pan fo rhagolygon o dywydd o'r fath, ac na ddylid defnyddio maglau mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion atal difrod difrifol neu ledaenu clefydau i dda byw, i fwydydd da byw, i gnydau, i lysiau neu i ffrwythau

Crynodeb

- Byddwn yn parhau i ddyroddi trwyddedau cyffredinol yn awdurdodi rheolaeth farwol adar gwyllt er mwyn atal difrod difrifol.
- Byddwn yn diffinio'r cyfuniadau penodol o rywogaethau a diben yr awdurdoddir rheolaeth farwol ar eu cyfer er mwyn atal difrod difrifol
- Ni fyddwn yn pennu'r adegau penodol o'r flwyddyn y gellir defnyddio trwyddedau cyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol ynddynt.
- Yng nghyd-destun y drwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol, byddwn yn parhau i ystyried bod y dehongliad 'a gedwir' yn y diffiniad o dda byw yn cynnwys anifeiliaid neu adar a fridiwyd mewn caethiwed heb eu cyfyngu ond sy'n parhau i ddibynnu ar bobl yn sylweddol.

Byddwn yn parhau i ddyroddi trwyddedau cyffredinol sy'n awdurdodi rheolaeth farwol adar gwyllt er mwyn atal difrod difrifol

Mynegodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr a pherchnogion tir, y farn bod y difrod y mae rhai rhywogaethau o adar gwyllt yn ei achosi i ffermio a garddwriaeth yn sylweddol, a bod gallu rheoli adar gwyllt o dan drwydded gyffredinol yn hanfodol i broffidioldeb a hyfywedd llawer o fusnesau ledled Cymru. Mynegwyd pryderon hefyd y byddai peidio â chael y modd cyfreithlon i atal rhywogaethau fel y frân dyddyn a'r biden rhag ymosod yn gorfforol ar dda byw bregus megis ŵyn newydd-anedig, yn niweidiol i les anifeiliaid.

Y brif her i'r cynnig hwn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd nad oes digon o dystiolaeth wedi'i chyhoeddi a'i hadolygu gan gymheiriaid ar raddfa neu ddifrifoldeb effaith adar gwyllt ar gnydau a da byw i gyfiawnhau dyroddi trwydded gyffredinol, ac y dylid dyroddi trwydded benodol i reoli adar at y diben hwn. Dadleuwyd ymhellach na ddylai CNC ddyroddi trwydded gyffredinol at y diben hwn ar sail tystiolaeth anecdotaidd, a bod maint y difrod y mae adar gwyllt yn ei achosi i dda byw a chnydau yn llawer llai nag y mae barn anecdotaidd ffermwyr a thirfeddianwyr yn ei awgrymu. Roedd anghytundeb ymhlith ymgynghoreion hefyd a oedd yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddyroddi trwyddedau cyffredinol o gwbl.

Rydym yn parhau i fod o'r farn bod trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheoli rhywogaethau penodol o adar gwyllt at ddiben atal difrod difrifol, yn bodloni ein hegwyddorion ar gyfer dyroddi trwyddedau cyffredinol. Wrth ddod i'r farn hon nid ydym yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd yn unig. Mae tystiolaeth gyhoeddedig sylweddol sy'n dangos bod rhai rhywogaethau o adar yn achosi difrod i gnydau a da byw, a lle mae tystiolaeth gyhoeddedig yn brin neu'n amhendiant, mae cryn dipyn o dystiolaeth anecdotaidd.

Byddwn yn diffinio'r cyfuniadau penodol o rywogaethau a diben yr awdurdodir rheolaeth farwol ar eu cyfer er mwyn atal difrod difrifol

Ar hyn o bryd mae GL001 yn awdurdodi rheoli chwe rhywogaeth o adar (**brân dyddyn, jac-y-do, pioden, ysguthan, colomen y graig a gŵwydd Canada**) at ddiben atal nifer o wahanol fathau o ddifrod difrifol. Nid yw pob un o'r rhywogaethau hyn yn achosi'r holl fathau o ddifrod a restrir yn y drwydded, ac mae'r defnyddiwr yn gyfrifol am sicrhau y cymerir unrhyw gamau gweithredu marwol yn erbyn y chwe rhywogaeth hyn cymryd er mwyn mynd i'r afael yn wirioneddol ag un neu ragor o'r mathau o ddifrod a nodir yn y drwydded.

Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid peidio â newid GL001 yn hyn o beth yn dadlau bod angen sicrhau bod y drwydded mor hyblyg a syml â phosibl, ac roedd yn well ganddynt barhau i ddibynnu ar grebwyll defnyddiwr y drwydded i farnu pryd mae'n briodol ei defnyddio. Dadleuwyd hefyd, ers i GL001 yn ei ffurf bresennol gael ei ddyfarnu'n gyfreithlon gan yr Uchel Lys, nad oes angen y newid y mae CNC yn ei gynnig beth bynnag.

Ar y llaw arall, mynegodd ymatebwyr eraill bryder bod GL001 ar hyn o bryd yn rhy eang ac annelwig o ran yr hyn y mae'n ei ganiatáu neu beidio, ac felly mae'n bosibl y gall y rhai sy'n dymuno rheoli adar gwyllt at ddibenion annilys ei gamddefnyddio. Dadleuodd rhai y dylai CNC gyhoeddi cyfres o drwyddedau cyffredinol ar gyfer pob cyfuniad o rywogaethau a diben lle roedd digon o dystiolaeth o ddifrod, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o gamddechongli a chamddefnyddio gan ddefnyddwyr.

Yn yr ymatebion a oedd yn cefnogi'r cynnig i ddiffinio cyfuniadau o rywogaethau a diben, cymharwyd hyn â GL42 Defra yn Lloegr³, sy'n diffinio'r cyfuniadau o rywogaethau a diben yr awdurdodir rheolaeth farwol ar eu cyfer, gan awgrymu y dylai CNC fabwysiadu dull tebyg.

Rydym o'r farn ei bod yn well parhau i ddyroddi un drwydded gyffredinol at ddiben atal difrod difrifol na dyroddi llawer o drwyddedau ar wahân, a allai achosi cymhlethdod ychwanegol sylweddol i ddefnyddwyr trwyddedau y mae angen arnynt i reoli gwahanol rywogaethau er mwyn atal mathau gwahanol o ddifrod difrifol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai cynnwys matrices sy'n diffinio'n glir pa rywogaethau y gellir eu lladd neu eu cymryd at ba ddiben yn welliant sylweddol, ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch y ffaith yr ymddengys bod GL001, ar hyn o bryd, yn caniatáu rheoli adar am resymau amhriodol. Yn yr un modd â phob trwydded (penodol neu gyffredinol), cyfrifoldeb defnyddiwr y drwydded yn y pen draw yw deall a chydymffurfio â thelerau ac amodau'r drwydded neu maent yn mentro cyflawni trosedd. Yn hyn o beth, ni fyddai unrhyw wahaniaeth cael cyfres o drwyddedau cyffredinol rhywogaeth-diben unigol.

Mae ein hystyriaeth o ba rywogaethau penodol all achosi pa fathau penodol o ddifrod yn seiliedig ar dystiolaeth gyfoes a nodir yn adroddiad adolygiad a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA, 2020), Newson *et al.*, (2019) a thystiolaeth anecdotaidd a ddarparwyd i Defra (Defra, 2019) ac CNC (CNC, 2021).

³ [Wild birds: licence to kill or take to prevent serious damage \(GL42\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/wild-birds-licence-to-kill-or-take-to-prevent-serious-damage-gl42)

Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn herio manylion y tabl rhywogaethau a diben y cynigiwn ei gynnwys yn GL001. Dadleuwyd nad oes tystiolaeth wyddonol wedi'i chyhoeddi bod jac-y-do yn achosi niwed difrifol i gnydau, llyisiau neu ffrwythau. Dadleuwyd hefyd nad oes cyfiawnhad dros gynnwys y bиден, jac-y-do a'r frân dyddyn ar GL001 mewn perthynas ag atal lledaenu clefydau i dda byw ac i fwydydd da byw, oherwydd, er bod y tair rhywogaeth hyn yn cario pathogenau sy'n niweidiol i dda byw, nid oes unrhyw dystiolaeth bod clefydau wedi'u trosglwyddo mewn gwirionedd.

Mewn perthynas â jac-dos a difrod difrifol i gnydau, daeth y gwaith a wnaed gan APHA (2020) i'r casgliad bod tystiolaeth gref o effaith jac-dos ar gnydau. Felly byddwn yn parhau i gynnwys jac-y-do ar GL001 at ddiben atal difrod difrifol i gnydau.

O ran y bиден, jac-y-do a'r frân dyddyn a lledaenu clefydau, rydym yn cydnabod bod diffyg tystiolaeth wyddonol gyhoeddedig o drosglwyddo heintiau naill ai'n uniongyrchol i dda byw neu'n anuniongyrchol drwy halogi bwydydd anifeiliaid ag ysgarthion. Asesodd APHA (2020) fod cryfder y dystiolaeth bod jac-dos yn lledaenu clefydau i dda byw yn ganolig, a'i fod yn ganolig i isel yn achos y frân dyddyn a'r bиден.

Rydym wedi ystyried canfyddiadau APHA, y tebygolrwydd bod y rhywogaethau hyn yn cario pathogenau cyffredin sy'n niweidiol i dda byw, tystiolaeth anecdotaidd a gyflwynwyd i Defra (Defra 2019 a 2021) a pha mor aml y bydd llawer o fathau o dda byw yn dod i gysylltiad â'r rhywogaethau hyn ac felly'n dod i gysylltiad â'r risg o drosglwyddo heintiau. Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid parhau i gynnwys y tair rhywogaeth ar GL001 at ddiben atal lledaenu heintiau i dda byw neu i fwydydd da byw.

Nodir y cyfuniadau o rywogaethau a diben a fydd yn cael eu cynnwys yn GL001 yn Atodiad 3.

Ni fyddwn yn pennu'r adegau penodol y gellir defnyddio trwyddedau cyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol ynddynt

Y prif reswm a roddodd ymatebwyr dros gefnogi cynnwys cyfyngiadau tymhorol ar reoli adar gwyllt o dan GL001, oedd gwneud y drwydded yn fwy pendant a'i gwneud yn llai agored i ddefnyddwyr ddehongli'r hyn y mae'r drwydded yn ei awdurdodi. Tynnodd rhai sylw at y ffaith bod patrymau tymhorol cryf i'r mathau o ddifrod y gall adar gwyllt ei achosi i fuddiannau ffermio ac y dylid adlewyrchu'r natur dymhorol hwnnw yn nhelerau'r drwydded.

Y prif resymau a roddwyd gan ymatebwyr dros wrthwynebu cynnwys terfynau tymhorol oedd bod gwahanol fathau o ddifrod yn digwydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn, sydd hefyd yn gallu bod yn anodd ei ragweld yn gywir, ac y byddai cynnwys terfynau amser sy'n berthnasol i bob math o ddifrod yn gwneud y drwydded yn rhy gymhleth ac anhylaw. Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr hefyd, ni waeth pryd y mae difrod yn dueddol o ddigwydd, fod angen i'r gallu i reoli adar gwyllt drwy gydol y flwyddyn fod yn gyfreithlon bosibl er mwyn galluogi perchnogion tir a busnesau gwledig i gymryd camau i atal hyn.

Er y gallai fod yn bosibl, mewn egwyddor, diffinio adegau penodol y flwyddyn pan fo'r problemau'n debygol o godi yn achos rhai cyfuniadau o rywogaethau a diben, ar ôl pwyso a mesur nid ydym yn meddwl y dylai trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol neu atal lledaenu heintiau i gnydau, da byw a bwydydd anifeiliaid gyfyngu ar reoli adar gwyllt i adegau penodol o'r flwyddyn. Mae mathau gwahanol o ddifrod fel arfer yn digwydd ar

adegau gwahanol o'r flwyddyn a chytunwn y byddai cynnwys cyfyngiadau o'r fath yn cynyddu cymhlethdod y drwydded yn fawr, i'r graddau na fyddai'n bodloni ein hegwyddor y dylai trwyddedau cyffredinol gael eu fframio'n glir a'u bod yn ddealladwy i ddefnyddwyr. At hynny, gall rhai mathau o ddifrod o fewn cwrpas GL001 ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, gan gynnwys difrod i fwydydd da byw a lledaenu heintiau. Yn yr un modd, mewn perthynas ag ymosodiadau uniongyrchol ar dda byw, er bod wyna fel arfer yn digwydd rhwng diwedd y gaeaf a diwedd y gwanwyn, gall da byw ifanc eraill fod yn agored i ymosodiadau drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft dofednod.

Yng nghyd-destun y drwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol, byddwn yn parhau i ystyried bod y dehongliad o 'a gedwir' yn y diffiniad o dda byw yn cynnwys anifeiliaid neu adar a fridiwyd mewn caethiwed heb eu cyfyngu ond sy'n parhau i ddibynnu ar bobl yn sylweddol

Mae'r diffiniad o dda byw yn adran 27 o'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw anifail a gedwir ar gyfer darparu bwyd, gwlan, crwyn neu ffwr, at ddiben ei ddefnyddio wrth gyflawni unrhyw weithgareddau amaethyddol, neu ar gyfer darparu neu wella saethu neu bysgota.

Nid yw'r term 'a gedwir' wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth. Mewn ymateb i geisiadau am gyngor ar ystyr 'a gedwir', ers 2019 rydym wedi ychwanegu ein dehongliad o 'a gedwir' at GL001. Ein dehongliad ni yw, at ddibenion trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol, bod 'a gedwir' yn cynnwys anifeiliaid sy'n perthyn i un neu ragor o'r categorïau a restrir yn y diffiniad statudol o dda byw, sydd naill ai wedi'u cyfyngu'n ffisegol (er enghraifft o fewn ffensys neu gorlan), neu sydd heb eu cyfyngu ond sy'n parhau i ddibynnu ar bobl yn sylweddol. Yn yr ymgynghoriad ceisiwyd barn ar y dehongliad hwn.

Roedd y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr dros anghytuno â'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar y sefyllfa o ran adar hela a fridiwyd mewn caethiwed, gan ddadlau y dylid ystyried eu bod yn adar gwyllt, nid da byw, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gwyllt at ddiben cael eu saethu.

Rydym yn parhau i fod o'r farn y gallai anifail sy'n dod o dan un neu ragor o'r categorïau o dda byw a nodir yn adran 27 o'r Ddeddf, mewn rhai amgylchiadau, barhau i gael ei ystyried yn anifail 'a gedwir' hyd yn oed pan nad yw wedi'i gyfyngu'n ffisegol. Er enghraifft, pan mae aderyn sydd wedi'i fridio mewn caethiwed (megis dofednod maes neu adar hela) heb ei gyfyngu ond yn parhau i fod yn agos at loc, corlan neu adeilad y mae'n dychwelyd iddo i lochesu neu i glwydo ynddo yn ystod y nos, a'i fod yn dibynnu'n sylweddol ar y bwyd a ddarperir gan bobl, yna gellir ystyried yn rhesymol ei fod yn dda byw.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr y farn hefyd y dylid cyfyngu'r diffiniad o 'dda byw' i anifeiliaid sy'n cael eu magu ar gyfer darparu bwyd, dillad neu nwyddau hanfodol eraill, yn hytrach nag ar gyfer gweithgareddau hamdden fel saethu adar hela. Fodd bynnag, mae'r diffiniad statudol o dda byw yn cynnwys anifeiliaid sy'n cael eu bridio ar gyfer eu saethu yn benodol, ac ni fyddai'n briodol i CNC bennu diffiniad mwy cul o dda byw nag a geir mewn deddfwriaeth.

Trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddiben cadwraeth adar gwyllt, planhigion neu anifeiliaid

Crynodeb

- Wrth drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth, rydym o'r farn y dylid sicrhau'r canlynol:
 - rhaid i'r camau gweithredu fod yn angenrheidiol o ran gwella statws rhywogaethau neu gynefinoedd o bryder cadwraethol;
 - y gellir diffinio'r budd cadwraeth a fwriedir ar raddfeydd daearyddol gwahanol;
 - y ceir digon o dystiolaeth o'r budd cadwraeth a fwriedir;
 - y dylid ystyried mesurau cadwraethol eraill ar wahân i reolaeth farwol adar gwyllt.
- Rydym o'r farn y dylai trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddiben cadwraeth adar gwyllt nodi'r rhywogaethau y bwriedir iddynt elwa ar gamau o'r fath, ac y dylid cyfyngu'r rhywogaethau a fyddai'n buddio o drwydded gyffredinol ar gyfer rheoli adar gwyllt i rywogaethau ar restr goch neu oren Adar o Bryder Cadwraethol, y maent yn bridio yng Nghymru ac yr ystyrir bod eu hwyau neu eu cywion yn agored i ysglyfaethu gan y rhywogaethau targed ar y drwydded gyffredinol.
- Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth adar gwyllt, gan awdurdodi rheolaeth farwol brain tyddyn at ddibenion gwarchod rhywogaethau y mae eu hwyau neu eu cywion yn agored i ysglyfaethu gan frain tyddyn yn unig.
- Ni fydd y bidden, jac-y-do a sgrech y coed yn cael eu cynnwys mwyach, felly ni cheir caniatâd i reoli'r rhywogaethau hyn at ddibenion gwarchod adar gwyllt ond o dan drwyddedau penodol.
- Diben y drwydded gyffredinol fydd gwarchod wyau a chywion y rhywogaeth sy'n buddio, a bydd yn awdurdodi rheolaeth farwol rhwng 1 Chwefror a 31 Awst.

Ein dull cyffredinol o drwyddedu rheolaeth farwol adar at ddibenion cadwraeth

Wrth drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth, rydym o'r farn y dylid sicrhau'r canlynol:

- rhaid i'r camau gweithredu fod yn angenrheidiol o ran gwella statws rhywogaethau neu gynefinoedd o bryder cadwraethol;
- y gellir diffinio'r budd cadwraeth a fwriedir ar raddfeydd daearyddol gwahanol;
- y ceir digon o dystiolaeth o'r budd cadwraeth a fwriedir;
- y dylid ystyried mesurau cadwraethol eraill ar wahân i reolaeth farwol adar gwyllt.

Mynegodd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cytuno â'r egwyddorion hyn amrywiaeth o safbwyntiau ar y manylion ymarferol hefyd. Er y derbyniwyd bod angen fframwaith cadarn ar gyfer penderfynu pryd mae ymyrraeth ar ffurf rheoli adar gwyllt yn angenrheidiol neu'n briodol, dadleuodd rhai y dylai'r egwyddorion fod yn hyblyg a chaniatáu i'r defnyddiwr arfer pragmatiaeth a chrebwyll wrth wneud penderfyniadau unigol yn hytrach na'u bod yn cael eu gweithredu fel set anhyblyg o feini prawf i'w cyflawni.

Cafwyd safbwyntiau gwahanol ar safon y dystiolaeth y dylid ei defnyddio wrth asesu sefyllfa yn erbyn yr egwyddorion hyn. Dadleuodd rhai ei bod yn ddigon i bennu, ar sail tebygolrwydd, y byddai rheoli rhywogaeth yn dod â budd cadwraeth, a bod gofyn am 'dystiolaeth' yn afrealistig. I'r gwrthwyneb, dadleuodd ymatebwyr eraill, yn enwedig o dan drwydded gyffredinol, y dylai fod yn ofynnol bod lefel uchel o sicrwydd y bydd y camau gweithredu'n effeithiol wrth gyfiawnhau rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth, .

Mynegodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r egwyddorion ystod eang o safbwyntiau. Roedd rhai o'r ymatebion yn canolbwyntio ar reoli brain at ddibenion cadwraeth, gan ddadlau bod yr egwyddorion yn rhy gyfyngol, a bod rheoli brain o fudd i gadwraeth holl adar gwyllt Cymru a bod hynny felly'n cyfiawnhau dyroddi trwyddedau cyffredinol. Roedd eraill yn anghytuno â'r ffordd y cafodd yr egwyddorion eu mynegi. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod yr egwyddorion yn rhy annelwig ac yn agored i'w dehongli. Yn yr un modd â'r ymatebion gan y rheini a oedd yn cytuno â'r egwyddorion, roedd hollt yn y safbwyntiau ar safon y dystiolaeth a ddylai fod yn ofynnol i gyfiawnhau rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth.

Mae pob aderyn gwyllt wedi'i warchod o dan y gyfraith. Fel rheoleiddiwr cyfrifol, rydym o'r farn bod rhaid i unrhyw randdirymiaidau o'r warchodaeth honno, ar ffurf trwyddedau a ddyroddir o dan adran 16 o'r Ddeddf, gael eu cyfiawnhau a'i bod yn glir eu bod yn dod o fewn un neu ragor o'r dibenion a ddiffinnir yn y Ddeddf. Rydym yn parhau i fod o'r farn, wrth drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth, bod rhaid i'r camau gweithredu fod yn angenrheidiol o ran gwella statws rhywogaethau neu gynefinoedd o bryder cadwraethol, y ceir digon o dystiolaeth o'r budd cadwraeth a fwriedir, ac y dylid ystyried mesurau cadwraeth eraill heblaw rheolaeth farwol adar.

Yn ein barn ni, nid yw'r ffaith bod un rhywogaeth o aderyn gwyllt yn ysglyfaethu ar rywogaeth arall o aderyn neu anifail yn cyfiawnhau rheoli'r rhywogaeth ysglyfaethus â dulliau marwol o safbwynt cadwraethol. Yng nghyd-destun rheoli ysglyfaethwyr, er mwyn ystyried trwydded gyffredinol fel adnodd rheoleiddio priodol at ddiben cadwraeth, y prif gwestiynau sy'n codi i ni fel awdurdod trwyddedu yw'r rhai a ganlyn: yn achos pa berthnasau ysglyfaethwr-ysglyfaeth y mae gennym ddigon o dystiolaeth o ddiben neu angen cadwraeth wirioneddol; pa rai sy'n ddigon cyffredin ar draws pob rhan o Gymru; ac a oes digon o dystiolaeth o effeithiolrwydd tebygol rheolaeth farwol, fel bod system drwyddedu cyffredinol, yn hytrach na system drwyddedu benodol, yn ddull cymesur ac effeithiol o fynd i'r afael â'r diben cadwraeth hwnnw?

Rydym yn parhau i fod o'r farn bod yr egwyddorion a nodir yn y papur ymgynghori yn fframwaith cadarn i lywio ein dull o drwyddedu at ddibenion cadwraeth. Rydym yn bwriadu eu defnyddio fel egwyddorion arweiniol lefel uchel yn hytrach na rheolau pendant. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu'r dull gweithredu. Mae'r egwyddorion wedi'u nodi yn Atodiad 4.

Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth adar gwyllt, gan awdurdodi rheolaeth farwol brain tyddyn at ddibenion gwarchod rhywogaethau y mae eu hwyau neu eu cywion yn agored i ysglyfaethu gan frain tyddyn yn unig

Yn y papur ymgynghori gwnaethom nodi ein bod o'r farn bod y dystiolaeth o effaith y frân dyddyn ar boblogaethau o adar gwyllt yn ddigon cryf i gefnogi dyroddi trwyddedau cyffredinol i reoli brain tyddyn. Yn benodol, yng ngoleuni adolygiad a gynhaliwyd gan APHA (2020), gwnaethom nodi fod cryfder tystiolaeth **uchel i ganolig** o debygolrwydd **cymedrol** y ceir effaith **uchel** ar boblogaethau o adar gwyllt o ganlyniad i ysglyfaethu gan frain tyddyn.

Roedd hollt yn yr ymatebion ynglŷn â ph'un a oedd ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad o'r dystiolaeth, a ph'un a oedd yn ddigon i gyfiawnhau cynnwys y frân dyddyn ar drwydded gyffredinol. Fodd bynnag, ni roddodd y rheini a oedd yn anghytuno unrhyw dystiolaeth ychwanegol i'n harwain i newid ein hasesiad. Hefyd, roedd yn ymddangos bod anghytundeb rhai o'r ymatebwyr yn seiliedig ar y farn nad yw trwyddedau cyffredinol yn ffurf briodol o drwyddedu beth bynnag, yn hytrach na'u bod yn ymdrin â'r mater o dystiolaeth o effaith yn benodol.

Rydym yn barnu na roddwyd digon o resymau mewn unrhyw un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i newid ein safbwynt mewn perthynas â brain tyddyn. Felly, rydym yn parhau i fod o'r farn bod y dystiolaeth o effaith ysglyfaethu gan frain tyddyn ar rywogaethau eraill o adar gwyllt yn ddigon cryf i gyfiawnhau cadw'r frân dyddyn ar y drwydded gyffredinol er budd cadwraeth adar gwyllt.

Ni fydd y bиден, jac-y-do a sgrech y coed yn cael eu cynnwys mwyach, felly ni cheir caniatâd i reoli'r rhywogaethau hyn at ddibenion gwarchod adar gwyllt ond o dan drwyddedau penodol

Jac-y-do

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom nodi fod cryfder tystiolaeth **canolig i isel** o **rywfaint** o debygolrwydd y ceir **rhywfaint** o effaith ar boblogaethau o adar gwyllt o ganlyniad i ysglyfaethu gan jac-dos, sy'n awgrymu ei bod yn annhebygol bod ysglyfaethu gan jac-dos yn cael effaith sylweddol ar rywogaethau eraill o adar gwyllt. Felly, roeddem o'r farn nad yw cryfder y dystiolaeth yn cefnogi cynnwys jac-y-do ar y drwydded gyffredinol at ddiben gwarchod adar gwyllt yng Nghymru.

Roedd hollt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mater hwn. Roedd ymatebwyr a gytunodd na ddylid cynnwys jac-y-do ar drwydded gyffredinol ar gyfer gwarchod adar gwyllt yn cytuno nad oedd y dystiolaeth yn ddigon i gyfiawnhau trwydded gyffredinol, a gwnaethant nodi y gellid defnyddio trwyddedau penodol i reoli jac-dos mewn lleoliadau lle roedd tystiolaeth bod angen gwneud hynny o safbwynt cadwraethol. Roedd yr ymatebwyr a oedd o'r farn y dylid cynnwys jac-y-do ar drwydded gyffredinol yn dadlau bod rhywfaint o dystiolaeth o effaith ysglyfaethu gan jac-dos ar rywogaethau eraill o adar gwyllt, ac y dylai CNC fabwysiadu dull rhagofalus o blaid rhywogaethau y mae jac-dos yn ysglyfaethu

arnynt. Nodwyd hefyd fod poblogaethau jac-y-do wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru a bod hyn wedi cyfrannu at ddirywiad rhywogaethau eraill o adar gwyllt.

Nid ydym o'r farn y darparwyd rhesymau digonol yn unrhyw un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i newid ein safbwynt ar jac-y-do. Felly, rydym yn parhau i fod o'r farn nad yw'r dystiolaeth o effaith ysglyfaethu jac-y-do ar rywogaethau eraill o adar gwyllt yn ddigon cryf i gyfiawnhau dyroddi trwyddedau cyffredinol i reoli jac dos at ddiben gwarchod adar gwyllt. Dylai unrhyw un sy'n bwriadu rheoli jac dos at y diben hwn wneud cais am drwydded benodol, gan ddarparu tystiolaeth o'r niwed, a'r budd arfaethedig i gadwraeth rhywogaethau a nodir.

Y bиден a sgrech y coed

Fel y nodwyd gennym yn y papur ymgynghori, mae cryfder tystiolaeth **canolig i uchel** bod **rhywfaint** o debygolrwydd y ceir effaith **fawr** ar boblogaethau o adar gwyllt o ganlyniad i ysglyfaethu gan biod a sgrechod y coed. Mae hyn yn golygu bod tystiolaeth o'u heffaith ar rywogaethau eraill o adar gwyllt. Gallai hyn gyfiawnhau cynnwys y naill rywogaeth neu'r llall ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y dystiolaeth yn y 'tir canol' o gategoriâu cryfder tystiolaeth adroddiad APHA (2020).

Roedd hollt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch cynnwys y bиден a sgrech y coed.

Dadleuodd ymatebwyr a ddywedodd y dylid parhau i gynnwys sgrech y coed a'r bиден ar GL004 fod y dystiolaeth wyddonol yn dangos, heb unrhyw amheuaeth, eu bod yn ysglyfaethwyr sylweddol ar wyau a chywion y rhywogaethau sy'n bridio yng Nghymru sydd ar restrau coch ac oren Adar o Bryder Cadwraethol. Dadleuwyd hefyd bod piod a sgrechod y coed yn niferus ac y byddai poblogaethau'n cynyddu pe byddai lefelau rheolaeth yn gostwng o ganlyniad i newidiadau i GL004.

Roedd yr ymatebwyr a ddywedodd na ddylid cynnwys sgrech y coed a'r bиден ar drwydded gyffredinol ar gyfer gwarchod adar gwyllt yn dadlau, er y gwyddys eu bod yn ysglyfaethu ar gywion ac wyau, nad oes fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, eu bod yn cael effaith sylweddol ar boblogaethau o adar gwyllt. Cafwyd adborth gan sefydliadau cadwraeth natur nad ydynt yn defnyddio trwyddedau cyffredinol ar dir y maent yn berchen arno neu'n ei reoli, i reoli naill ai sgrechod y coed neu biod er cadwraeth rhywogaethau eraill o adar gwyllt.

Rydym wedi ystyried pa mor rhagofalus yr ydym am fod, o ran y rhywogaeth darged a'r rhywogaeth sy'n buddio, ill dau, o ystyried cryfder y dystiolaeth a'r egwyddorion yr ydym wedi'u datblygu ar gyfer penderfynu a yw trwydded gyffredinol yn briodol: sefyllfaoedd cyffredin, eang a risg isel, pan fo angen gwirioneddol i reoli adar a phan fo trwydded gyffredinol yn ddull cymesur, o ystyried amllder, graddfa a difrifoldeb y broblem neu'r angen.

Ar sail yr uchod rydym wedi gwneud penderfyniad polisi na fydd y bиден na sgrech y coed wedi'u cynnwys ar GL004. Dylai unrhyw un sy'n bwriadu rheoli piod neu sgrechod y coed at ddiben gwarchod adar gwyllt wneud cais am drwydded benodol, gan ddarparu tystiolaeth o'r niwed a'r budd arfaethedig i gadwraeth rhywogaethau a nodir. Rydym yn rhagweld, mewn llawer o achosion, y bydd modd rhagweld yr angen i ddefnyddio dulliau marwol i reoli piod neu sgrechod y coed er cadwraeth un neu ragor o'r rhywogaethau sy'n

buddio, a hynny, er enghraifft, fel rhan o brosiect neu strategaeth cadwraeth arfaethedig sydd hefyd yn cynnwys mesurau eraill i gefnogi cadwraeth y rhywogaethau o dan sylw. Gan hynny, credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i ddarpar ddeiliaid trwydded neilltuo digon o amser i gael trwydded benodol wrth gynllunio'u gweithgareddau.

Ystyried goblygiadau'r newidiadau i GL004

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr y farn y dylai CNC, cyn iddo dynnu unrhyw rywogaethau oddi ar GL004, gynnal asesiad o'r effeithiau o wneud hynny ar rywogaethau eraill. Dadleuwyd, yn enwedig mewn perthynas â'r bиден, y dylid cael cyfiawnhad clir dros dynnu rhywogaeth a oedd wedi'i chynnwys ar drwyddedau cyffredinol yn flaenorol, a'r goblygiad yw y dylai rhywogaethau barhau i fod wedi'u cynnwys ar drwyddedau cyffredinol oni bai bod cyfiawnhad digonol i'w dileu a hyd nes y ceir y cyfiawnhad hwnnw.

Nid ydym yn rhannu'r dehongliad hwn o'n rhwymedigaethau statudol fel awdurdod trwyddedu Cymru. Mae pob aderyn gwyllt, gan gynnwys y bиден, yn rhywogaeth warchoddedig. Rydym o'r farn mai ein rhwymedigaeth allweddol o dan adran 16 o'r Ddeddf yw bod y gallu gennym i roi cyfiawnhad clir dros ddyroddi trwydded, gan gynnwys trwydded gyffredinol, sy'n caniatáu i rywogaeth aderyn gwyllt fod yn destun rheolaeth farwol.

At hynny, nid yw ein penderfyniad i beidio â chynnwys jac-y-do, sgrech y coed a'r bиден fel rhywogaeth darged ar GL004, gyfystyr â phenderfynu na fyddwn yn caniatáu i'r tair rhywogaeth hyn fod yn destun rheolaeth farwol at ddibenion gwarchod adar gwyllt. Yn hytrach, mae'n benderfyniad y dylai unrhyw reolaeth o'r fath fod yn destun trwyddedu penodol yn hytrach na chael ei awdurdodi o dan drwydded gyffredinol, a chaiff y ceisiadau eu hystyried fesul achos, yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y cais am drwydded. Byddai asesu'r goblygiadau (i'r rhywogaeth buddiolwr) o newid y math o drwydded y cyflawnir rheolaeth y rhywogaethau ysglyfaethus oddi tani yn hynod o heriol beth bynnag oherwydd, o dan y naill drefniant neu'r llall, byddai'r penderfyniad ynghylch p'un a ddylid rheoli'r rhywogaethau ysglyfaethus o gwbl yn cael ei wneud yn gyfan gwbl yn ôl disgrisiwn y deiliaid trwydded.

Nid ydym yn ystyried bod ein penderfyniad i beidio â chynnwys tair rhywogaeth o frain ar GL004 yn amodol ar unrhyw broses neu rwymedigaeth asesu ffurfiol. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried yn ofalus y dystiolaeth sydd ar gael ar effaith y tair rhywogaeth o dan sylw ar adar gwyllt eraill, fel y nodir uchod. Oherwydd nad yw'n amlwg o'r dystiolaeth bod ysglyfaethu ar nythod gan y jac-y-do, y bиден neu sgrech y coed yn effeithio'n sylweddol ar boblogaethau o rywogaethau eraill o adar gwyllt, credwn fod y dull mwy gofalus o drwyddedu penodol yn briodol, yn hytrach na dyroddi trwydded gyffredinol sy'n awdurdodi rheolaeth farwol.

Rydym o'r farn y dylai trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddiben cadwraeth adar gwyllt nodi'r rhywogaethau y bwriedir iddynt elwa ar gamau o'r fath, ac y dylid cyfyngu'r rhywogaethau sy'n buddio ar drwydded gyffredinol ar gyfer rheoli adar gwyllt i rywogaethau sydd ar restr goch neu oren Adar o Bryder Cadwraethol, y maent yn bridio yng Nghymru ac yr ystyrir bod eu hwyau neu eu cywion yn agored i ysglyfaethu gan y rhywogaethau targed ar y drwydded gyffredinol

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom gynnig, wrth ddyroddi trwydded at ddiben gwarchod adar gwyllt, rhaid ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad – o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael – y byddai rheoli un rhywogaeth o fudd gwirioneddol i gadwraeth rhywogaeth arall. Mae'n amlwg na ellir disgwyl i rywogaeth o ysglyfaeth nad oes ganddi unrhyw gysylltiad ecolegol sylweddol â rhywogaeth o ysglyfaethwr, er enghraifft oherwydd nad oes dim, neu fawr ddim gorgyffwrdd gofodol yn eu tiriogaeth, elwa ar reolaeth farwol i reoli'r rhywogaeth o ysglyfaethwr.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad at rai o'r rhywogaethau targed sydd ar GL004 ar hyn o bryd, yn enwedig brain, fel 'rhywogaethau pla' neu 'fermin', a dadleuwyd bod dull gweithredu arfaethedig CNC yn rhoi gormod o bwyslais ar nodi pa rywogaethau penodol y bwriedir iddynt elwa ar eu rheoli. Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr bod rheoli brain, yn enwedig y pedair rhywogaeth a restrir ar GL004, o fudd cynhenid i gadwraeth bywyd gwyllt a bod modd cyfiawnhau hyn oherwydd eu bod mor niferus, yn eang eu gwasgariad, a bod eu hymddygiad ysglyfaethus yn hysbys.

Nid ydym wedi ein darbwyllo gan y ddadl honno. Mae pob rhywogaeth o adar gwyllt yn cael ei gwarchod o dan y Ddeddf a dim ond at ddibenion penodol y gellir dyroddi trwyddedau. Er bod adar gwyllt penodol, gan gynnwys rhai mathau o frain, yn gallu achosi problemau, ac yn gwneud hynny, gan gynnwys o ran cadwraeth rhywogaethau eraill mewn rhai achosion, rydym o'r farn bod nodi unrhyw rywogaeth o'r fath fel 'pla' yn gyffredinol, yn groes i'r safbwynt statudol. Yn yr un modd, nid ydym yn cytuno y gellir cyfiawnhau trwyddedu rheoli brain at ddibenion cadwraeth heb gyfeirio o gwbl at ba rywogaethau fyddai'n elwa ar gamau gweithredu o'r fath. Felly rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai unrhyw drwydded a ddyroddwn at ddibenion cadwraeth, gan gynnwys trwydded gyffredinol, nodi'n glir fel rhan o ddiffiniad y diben hwnnw, ba rywogaethau y bwriedir iddynt elwa ar y camau a awdurdodwyd gan y drwydded. Mae hwn yn ofyniad hanfodol ar unrhyw drwyddedau penodol a ddyroddwn at ddibenion cadwraeth ac ni welwn unrhyw reswm pam y dylai trwyddedau cyffredinol fod yn wahanol yn hyn o beth.

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi safbwyntiau gwahanol ar safon y dystiolaeth y dylem ei defnyddio i benderfynu p'un a fydd trwydded sy'n caniatáu rheolaeth farwol yn hybu diben cadwraethol gwirioneddol. Rydym yn parhau i fod o'r farn mai'r safon briodol o dystiolaeth i gefnogi rheoli adar gwyllt at ddibenion cadwraeth, yw y dylai fod yn rhesymol ystyried y bydd rheolaeth farwol yn cyfrannu at fynd i'r afael â diben cadwraeth. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn gofyn am 'brawf' neu 'sicrwydd', ac mae'n drothwy tystiolaeth afrealistig oherwydd y rhyngweithio cymhleth rhwng ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth, a'r anawsterau cydnabyddedig iawn o ddatgysylltu effeithiau ysglyfaethu gan adar gwyllt oddi wrth ysglyfaethu gan ysglyfaethwyr eraill nad ydynt yn adar, a phwysau eraill, megis aflonyddu neu newidiadau i gynefinoedd. Nid ydym

yn credu y byddai'n briodol i CNC osod safon tystiolaeth a fyddai'n ei gwneud yn amhosibl, yn ymarferol, i ddyroddi trwyddedau at ddibenion cadwraeth.

Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dadlau bod rhywogaethau ar restr werdd Adar o Bryder Cadwraethol â statws cadwraeth ffafriol o ganlyniad i reolaeth brain yn hanesyddol a gyflawnwyd o dan drwyddedau cyffredinol, ac y dylid gallu parhau i ddefnyddio GL004 i warchod rhywogaethau ar y rhestr werdd. Yn unol â'n hegwyddorion ar gyfer trwyddedu cadwraeth, nid ydym yn credu y gellir ystyried yn rhesymol bod angen trwydded gyffredinol i reoli unrhyw rywogaeth sy'n ysglyfaethu ar rywogaeth nad yw o bryder cadwraethol. Rydym yn derbyn y gall sefyllfaoedd penodol godi pan fo'n bosibl cyfiawnhau rheoli adar ysglyfaethus â dulliau marwol er budd gwarchod rhywogaeth sydd ar restr werdd Adar o Bryder Cadwraethol, ond rydym o'r farn mai drwy geisiadau am drwyddedau penodol y dylid ymdrin â chyfiawnhau ymyrraeth o'r fath.

Comisiynwyd Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO) i asesu pa mor agored i niwed y mae rhywogaethau ar restrau coch ac oren Adar o Bryder Cadwraethol, sy'n bridio yng Nghymru, o ganlyniad i ysglyfaethu nythod gan bedair rhywogaeth o frain (y frân dyddyn, sgrech y coed, jac-y-do a'r bиден),. Gan ddefnyddio canfyddiadau'r gwaith hwnnw (Taylor *et al.*, 2022) rydym wedi nodi rhestr o53 o rywogaethau adar gwyllt yr ydym yn ystyried eu bod yn agored i niwed drwy ysglyfaethu gan y frân dyddyn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 5, a byddant yn cael eu rhestru mewn Atodiad i GL004 fel y rhywogaethau sy'n buddio o reoli brain tyddyn.

Diben y drwydded gyffredinol fydd gwarchod wyau a chywion y rhywogaeth sy'n buddio, a bydd yn awdurdodi rheolaeth farwol rhwng 1 Chwefror a 31 Awst

Wyau a chywion

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom gynnig parhau i gyfyngu GL004 i warchodaeth wyau a chywion oherwydd bod y dystiolaeth wyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid sydd ar gael yn dangos bod ysglyfaethu gan y rhywogaethau o frain a restrir ar GL004 ar hyn o bryd ar rywogaethau eraill o adar gwyllt, wedi'i gyfyngu i ysglyfaethu wyau a chywion yn gyffredinol. Ychydig o dystiolaeth wyddonol sydd wedi'i chyhoeddi bod unrhyw un o'r rhywogaethau o frain hyn yn ysglyfaethu ar adar gwyllt aeddfed iach o unrhyw rywogaeth. Er bod rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi bod rhywogaethau o frain megis y frân dyddyn yn ysglyfaethu ar adar aeddfed, nid ydym yn ymwybodol o dystiolaeth sy'n dangos bod graddfa ysglyfaethu o'r fath yn arwyddocaol.

Nid ydym wedi ein darbwylllo bod rhesymau digonol wedi'u cyflwyno yn unrhyw un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i newid ein safbwynt ar y mater hwn. Felly bydd diben y drwydded gyffredinol ar gyfer gwarchod adar gwyllt yn parhau i gael ei gyfyngu i gadwraeth wyau a chywion y rhywogaeth sy'n buddio.

Y cyfnod amser ar gyfer rheolaeth farwol

Gan mai diben arfaethedig GL004 yw gwarchod wyau a chywion y rhywogaethau buddiolwyr, credwn y dylid cyfyngu rheolaeth farwol i brif dymor bridio adar ac i'r cyfnod yn union cyn y tymor bridio pan fo brain tyddyn yn datblygu perthynas mewn parau ac yn sefydlu eu tiriogaethau bridio eu hunain, sy'n amser effeithiol i gyflawni rheolaeth.

Cafwyd cefnogaeth i'r dull gweithredu hwn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, neu fel arall nid oes rhesymeg i'r ffaith bod y drwydded ond yn berthnasol i wyau a chywion y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod.

Mynegodd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn bryder ynghylch lles cywion y rhywogaethau targed. Rydym o'r farn y bydd caniatáu rheolaeth mor gynnar â 1 Chwefror yn ei gwneud yn bosibl dechrau'r gwaith o reoli brain tyddyn cyn iddynt eu hunain fridio, gan liniaru'r effaith ar les cywion i ryw raddau. Mae'r cyngor mewn rhai canllawiau ar arferion da yn nodi y dylid dal brain yn y gwanwyn a'r haf. Dyma'r cyfnod pan fo'r ysglyfaeth fwyaf agored i niwed a'r adeg pan fo maglau cawell brain fwyaf effeithiol o ran cael gwared ar adar tiriogaethol.

Trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd, diogelwch y cyhoedd a diogelwch yr aer

Crynodeb

- Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol i ganiatáu rheolaeth farwol colomennod y graig er mwyn diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaenu heintiau.
- Bydd y drwydded yn nodi y gellir ei defnyddio i fynd i'r afael â'r tri math penodol o berygl y mae colomennod y graig yn eu peri i iechyd a diogelwch y cyhoedd, sef: lledaenu clefydau i bobl, llithriadau a chwympto, a phroblemau a achosir gan adar sy'n nythu ac yn clwydo.
- Ni fyddwn yn dyroddi trwydded gyffredinol at ddibenion iechyd/diogelwch y cyhoedd yn awdurdodi rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth ac eithrio colomennod y graig. Bydd rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth o wylanod at y diben hwn yn parhau i gael ei awdurdodi drwy drwyddedau penodol.
- Byddwn yn parhau i reoleiddio rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion diogelwch aer drwy drwyddedau penodol, yn hytrach na dychwelyd i drwyddedau gyffredinol.

Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol i ganiatáu rheolaeth farwol colomennod y graig er mwyn diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaenu clefydau

Nododd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn ei bod yn hysbys bod colomennod y graig yn peri risg i iechyd y cyhoedd, yn enwedig drwy ledaenu heintiau, ac oherwydd bod hon yn broblem gyffredin a helaeth, mae trwydded gyffredinol yn briodol.

Mynegwyd safbwyntiau cyferbyniol gan ymatebwyr a ddywedodd nad oedd rheolaeth farwol yn ddatrysiad hirdymor ac mai dull gwell o weithredu fyddai defnyddio dulliau atal nad ydynt yn farwol a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n ysgogi cynnydd yn y boblogaeth o golomennod, megis bwydo a gollwng sbwriel.

Rydym yn parhau i fod o'r farn bod trwydded gyffredinol i ganiatáu rheolaeth farwol colomennod y graig er mwyn diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaenu heintiau. Mae APHA (2020) yn awgrymu bod cryfder tystiolaeth canolig-cryf o effaith colomennod y graig ar iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod colomennod yn cario pathogenau niweidiol sy'n gyffredin i bobl, heb fawr o dystiolaeth o gyfraddau trosglwyddo gwirioneddol i bobl. Fodd bynnag, mae ein penderfyniad i gadw trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth colomennod y graig at ddibenion iechyd y cyhoedd yn ystyried pa mor gyffredin yw colomennod y graig mewn lleoliadau trefol a pha mor aml ac agos y mae colomennod y graig a phobl yn dod i gysylltiad.

Mynegwyd pryderon hefyd am y risg nad oes gan ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol y gallu i wahaniaethu rhwng colomennod y graig ac ysguthanod. Mae GL002 yn awdurdodi rheolaeth colomennod y graig yn unig. Os yw unigolyn yn lladd aderyn o rywogaeth

wahanol at ddiben iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, nid yw'r weithred honno yn dod o dan cwmpas y drwydded gyffredinol a byddai'n golygu bod trosedd wedi'i chyflawni. Mae'n gyfrifoldeb ar unrhyw drwyddedai adnabod y rhywogaeth darged yn gywir a chydymffurfio â holl delerau ac amodau'r drwydded.

Bydd y drwydded yn nodi y gellir ei defnyddio i fynd i'r afael â'r tri math penodol o berygl y mae colomennod y graig yn eu peri i iechyd a diogelwch y cyhoedd, sef: lledaenu heintiau i bobl, llithriadau a chwmpo, a phroblemau a achosir gan adar sy'n nythu ac yn clwydo

Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai GL002 egluro'r mathau o risg i iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd y dylai camau a gymerir o dan y drwydded fynd i'r afael â hwy. Mae hyn yn gyson â'n dull o weithredu o ran y trwyddedau cyffredinol eraill (GL001 a GL004) lle rydym yn diffinio diben y drwydded yn gliriach drwy fod yn fwy penodol ynghylch y niwed neu'r buddion penodol y bwriedir y bydd camau rheoli'r rhywogaeth darged ar bob trwydded yn mynd i'r afael â hwy.

Ni fyddwn yn dyroddi trwydded gyffredinol at ddibenion iechyd/diogelwch y cyhoedd yn awdurdodi rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth ac eithrio colomennod y graig. Bydd rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth o wylanod at y diben hwn yn parhau i gael ei awdurdodi drwy drwyddedau penodol

Yn y papur ymgynghori, gwnaethom esbonio nad oeddem yn ymwybodol o dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai'n addas cynnwys rhywogaethau eraill ar drwydded gyffredinol at ddiben diogelu iechyd y cyhoedd ac atal lledaenu heintiau, ac felly ni wnaethom gynnig cynnwys unrhyw rywogaethau eraill ar drwydded gyffredinol at ddibenion iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd (GL002 ar hyn o bryd).

Cafwyd safbwyntiau cyferbyniol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd llawer o'r ymatebwyr na ddylid estyn cwmpas trwyddedau cyffredinol i gynnwys unrhyw rywogaethau ychwanegol. Fodd bynnag, mewn ymatebion eraill, cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer cynnwys rhywogaethau ychwanegol ar GL002, sef gŵydd Canada, yr ydfran, jac-y-do, y biden, y ddrudwen, y frân dyddyn, a gwylanod (amrywiaeth o rywogaethau). Y prif resymau a roddwyd oedd y risg o drosglwyddo heintiau i bobl (yn uniongyrchol neu drwy halogi bwydydd), y peryglon o faw yn cronni mewn mannau cyhoeddus ac, yn achos gwylanod yn benodol, ymosodiadau uniongyrchol ac ymddygiad ymosodol tuag at bobl.

Rydym wedi adolygu'r gwahanol rywogaethau a awgrymwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn erbyn ein hegwyddorion ar gyfer dyroddi trwyddedau cyffredinol, ac nid ydym yn bwriadu cynnwys rhagor o rywogaethau ar drwydded gyffredinol at ddiben diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd.

Yn gyntaf, ychydig iawn o dystiolaeth, os o gwbl, a geir bod unrhyw un o'r rhywogaethau a restrir uchod yn peri risg sylweddol o drosglwyddo heintiau i bobl. Er bod rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at y ffaith bod baw adar gwyllt yn gorchuddio lloriau, yn cael eu sathru i mewn i adeiladau cyhoeddus neu'n halogi ffynonellau dŵr, nid

yw hynny'n golygu bod yr adar yn peri risg wirioneddol i'r graddau y gellir cyfiawnhau dyroddi trwydded gyffredinol i ganiatáu eu rheoli â dulliau marwol.

Yn ail, o ran yr holl rywogaethau a awgrymwyd, ac eithrio rhywogaethau penodol o wylanod, ychydig iawn o geisiadau rydym wedi'u cael am drwyddedau penodol i'w rheoli at ddibenion iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, ac mewn rhai achosion ni chawsom gais erioed. Felly rydym o'r farn na fyddai dyroddi trwydded gyffredinol yn ymateb cymesur. Os bernir bod angen rheoli unrhyw un o'r rhywogaethau hyn â dulliau marwol mewn amgylchiadau penodol er mwyn mynd i'r afael â phryder iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, boed hynny'n ymwneud â throsglwyddo heintiau neu beryglon a achosir gan faw neu drwy nythu, ac na ellir mynd i'r afael â hwy drwy ddefnyddio dulliau eraill nad ydynt yn farwol, gellir gwneud cais am drwyddedau penodol.

Yn drydydd, mae nifer o'r rhywogaethau hyn, gan gynnwys rhai rhywogaethau o wylanod, ar restrau coch neu oren Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru ar hyn o bryd oherwydd ceir tystiolaeth y bu dirywiad yn eu poblogaeth. Gan ystyried ein hegwyddorion ar gyfer dyroddi trwyddedau cyffredinol, rydym o'r farn y dylid parhau i reoleiddio eu rheolaeth â dulliau marwol o dan drwyddedau penodol.

Byddwn yn parhau i reoleiddio rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion diogelwch aer drwy drwyddedu penodol, yn hytrach na dychwelyd i drwydded gyffredinol

Er y gwnaeth rhai o'r ymatebwyr fynegi cefnogaeth am drwydded gyffredinol ar gyfer diogelwch aer, nodwyd mai'r prif reswm oedd yr angen i reolwyr meysydd awyr allu rheoli adar sy'n peri risg sylweddol i ddiogelwch aer, yn hytrach na mynegi unrhyw ddadleuon bod trwyddedau cyffredinol yn well na thrwyddedau penodol yn y cyd-destun hwn. Cydnabuwyd hefyd mai nifer fach yn unig o feysydd awyr sydd yng Nghymru, ac ni chawsom unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad gan y sector hedfanaeth a oedd yn anghytuno â'r egwyddor o barhau i ddefnyddio trwyddedau penodol at ddibenion diogelwch aer.

Felly, rydym yn parhau i fod o'r farn nad yw trwydded gyffredinol at y diben hwn yn briodol.

Trwyddedu rheolaeth farwol ar rywogaethau o adar gwyllt estron goresgynnol

Crynodeb

- Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol sy'n awdurdodi dulliau marwol o reoli hwyaid cochion at ddibenion cadwraeth.
- Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol sy'n awdurdodi dulliau marwol o reoli gwyddau Canada er mwyn atal difrod difrifol i gnydau.
- Byddwn yn ystyried dyroddi trwyddedau cyffredinol sy'n awdurdodi rheolaeth farwol rywogaethau estron goresgynnol eraill o adar gwyllt pan fo'r angen i ddefnyddio dulliau marwol i reoli rhywogaethau o'r fath wedi'i nodi'n ffurfiol drwy'r broses cynllun wrth gefn a arweinir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol.

Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol sy'n awdurdodi defnyddio dulliau marwol i reoli hwyaid cochion

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â chadw trwydded gyffredinol ar gyfer rheoli'r hwyaden goch (GL005) fod y rhywogaeth yn agos i gael ei dileu o'r DU ac y bydd cadw'r drwydded gyffredinol yn helpu i sicrhau hyn.

Dadleuodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylid rheoli hwyaid cochion a rhywogaethau estron goresgynnol eraill o dan drwyddedau penodol, a dim ond pan fo tystiolaeth o broblem. Cafodd anghytundebau â'r syniad o barhau â GL005 eu mynegi hefyd fel gwrthwynebiadau i drwyddedau cyffredinol mewn egwyddor, a'r feirniadaeth bod diffyg unrhyw adroddiadau neu atebolrwydd ynghlwm wrthynt.

Yr amcan polisi swyddogol yng Nghymru mewn perthynas â rheoli'r hwyaden goch yw dileu'r rhywogaeth o'r gwyllt. Nododd rhai o'r ymatebwyr – ac rydym yn cytuno â hwy – fod ymdrechion tuag at y nod hwnnw yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Fodd bynnag, hyd nes y ceir cadarnhad bod y rhywogaeth wedi'i dileu, rydym o'r farn bod trwydded gyffredinol sy'n caniatáu ei rheoli â dulliau marwol yn parhau i fod yn briodol.

Byddwn yn parhau i gynnwys amod yn GL005 sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n defnyddio'r drwydded adrodd i nifer yr adar sy'n cael eu lladd o dan y drwydded i CNC. Rydym o'r farn bod y mesur hwn yn ddefnyddiol yng nghyd-destun monitro cynnydd tuag at y nod o ddileu hwyaid cochion o'r DU.

Byddwn yn parhau i ddyroddi trwydded gyffredinol sy'n awdurdodi dulliau marwol o reoli gwyddau Canada er mwyn atal difrod difrifol i gnydau

Er yr ystyrir bod yr wydd Canada yn rhywogaeth estron oresgynnol, mae ei rheolaeth farwol wedi'i thrafod uchod mewn perthynas â'r drwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol i gnydau.

Byddwn yn ystyried dyroddi trwyddedau cyffredinol sy'n awdurdodi rheolaeth farwol rywogaethau estron goresgynnol eraill o adar gwyllt pan fo'r angen i ddefnyddio dulliau marwol i reoli rhywogaethau o'r fath wedi'i nodi'n ffurfiol drwy'r broses cynllun wrth gefn a arweinir gan Llywodraeth Cymru ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol

Rhoddodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn resymau tebyg i'r rheini a gyflwynwyd gennym yn y papur ymgynghori.

Fodd bynnag, cododd rhai o'r ymatebwyr y pryder nad yw'r dull hwn yn ddigon rhagweithiol, gan ddadlau y dylid cymryd camau cyn gynted â phosibl ar ôl i rywogaeth estron oresgynnol gyrraedd, er mwyn rheoli ei lledaeniad. Cofnodwyd bod sawl rhywogaeth estron oresgynnol o adar eisoes yn bresennol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys gŵydd yr Aiff a paracitaid torchog, felly dadleuwyd y dylid dyroddi trwydded gyffredinol yn awr er mwyn ei gwneud yn bosibl difa rhywogaethau o'r fath.

Nid ydym wedi ein darbwylo gan y ddadl honno. Os bernir bod angen rheolaeth farwol, mae'r gallu i wneud hynny i reoli rhywogaeth o dan drwydded gyffredinol yn un o'r offerynnau sydd ar gael ar gyfer rheoli rhywogaeth estron oresgynnol, ac mae'n bosibl nad dyma'r ffordd orau neu fwyaf effeithiol i'w difa'n benodol o reidrwydd. Er enghraifft, mae trwydded gyffredinol ond yn caniatáu lladd adar unigol o rywogaeth benodol, ond nid yw'n cyfeirio unrhyw gamau o'r fath i fannau lle mae angen eu gweithredu neu le y byddent fwyaf effeithiol. Pan ddyroddwyd trwyddedau cyffredinol ar gyfer rheoli hwyaid cochion ledled y DU am y tro cyntaf, roedd hynny yng nghyd-destun rhaglen ddileu genedlaethol o dan arweiniad y llywodraeth, a diben penodol y trwyddedau cyffredinol oedd ei gwneud yn bosibl rheoli'r rhywogaeth yn gyfreithlon drwy asiantau dan gontractau swyddogol, yn ogystal â thrwy'r cyhoedd yn gweithredu o'u gwirfodd eu hunain.

Mae proses cynllunio wrth gefn ar waith o dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu'r angen am weithredu mesurau yng Nghymru i reoli rhywogaethau estron goresgynnol, a allai gynnwys rheolaeth farwol. Hyd yn hyn, nid yw'r broses honno wedi pennu bod angen cyflwyno rhaglen reolaeth farwol ar gyfer unrhyw rywogaethau estron goresgynnol o adar ac eithrio'r hwyaden goch. Felly, rydym o'r farn y byddai dyroddi trwydded gyffredinol ar hyn o bryd sy'n awdurdodi rheolaeth farwol unrhyw rywogaethau estron goresgynnol o adar yn rhagor yn mynd o flaen y broses bolisi. Er enghraifft, efallai mai'r amcan polisi ar gyfer rhai rhywogaethau estron goresgynnol yw eu cyfyngu neu eu rheoli ar lefel lleol yn hytrach na'u dileu, neu efallai ei fod yn cynnwys mesurau lliniaru neu addasu i effeithiau'r rhywogaeth ac, os felly, mae'n bosibl na fyddai/y byddai trwydded gyffredinol yn ymateb rheoleiddiol effeithiol neu briodol.

Os cadarnheir bod achos dros reolaeth farwol rhywogaeth wedi'i gytuno'n ffurfiol o dan y broses gynllunio wrth gefn ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol, neu pan fydd hyn yn digwydd, gellir penderfynu ar briodoldeb trwydded gyffredinol a dyroddi trwydded gyffredinol yn gyflym os oes angen.

Agweddau eraill a godwyd yn yr ymgynghoriad

Trwydded dosbarth at ddiben cadwraeth

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai CNC ystyried cyflwyno trwyddedau dosbarth, yn enwedig fel dull posibl o drwyddedu rheolaeth adar gwyllt at ddibenion cadwraeth.

Gellir diffinio trwydded dosbarth fel math o drwydded nad yw'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno ceisiadau amdanynt, yn wahanol i drwyddedau penodol, ond sy'n awdurdodi ystod fwy cyfyngedig o ddefnyddwyr, neu 'ddosbarth' o unigolion, i weithredu na thrwydded gyffredinol, ac y gall gynnwys amodau neu gyfyngiadau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys mewn trwyddedau cyffredinol.

Yn gynharach yn y ddogfen hon nodwyd ein dull o ddyroddi trwydded gyffredinol at ddiben gwarchod adar gwyllt. Pe bai trwydded dosbarth at y diben hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr gofrestru gyda CNC er mwyn defnyddio'r drwydded yn unig, rydym o'r farn na fyddai'n wahanol iawn i drwyddedau cyffredinol, ac ni fyddai'n datrys y cwestiwn penodol p'un a oes digon o dystiolaeth o angen cadwraeth gwirioneddol i gyfiawnhau trwydded mor eang.

Yn ogystal â chofrestru defnyddwyr, gallai system trwydded dosbarth olygu bod angen ystyried cymhwysedd deiliad trwydded, pan fyddai rhaid i ddarpar ddefnyddwyr ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd (cymwysterau neu brofiad) i reoli adar at ddibenion cadwraeth, a phan mai dim ond y rheini sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd gofynnol fyddai'n cael bod yn ddeiliaid trwydded cofrestredig. Byddai angen i'r meini prawf hynny fod yn ddigon cadarn ac wedi'u diffinio'n glir.

Nid ydym yn cynnig cyflwyno unrhyw drwyddedau dosbarth ar hyn o bryd, ond efallai y byddwn yn ystyried gwneud hynny yn y dyfodol os daw tystiolaeth i'r amlwg y gallent fod yn sail ddefnyddiol ar gyfer trwyddedu rheolaeth adar gwyllt mewn cyd-destunau penodol, gan gynnwys cadwraeth adar gwyllt.

Caniatáu i adar gwyllt gael eu lladd

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y farn na ddylai CNC awdurdodi rheolaeth adar gwyllt o gwbl, o dan unrhyw fath o drwydded. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys dadleuon ar sail y ffaith bod adar gwyllt yn fywyd gwyllt gwarchodedig a, gan hynny, nad oes unrhyw gyfiawnhad dros ganiatáu i adar gwyllt gael eu lladd o ystyried bod argyfwng natur, bod y problemau a achosir gan adar gwyllt wedi'u gorliwio a, phan fo adar gwyllt yn peri risg i amaethyddiaeth, iechyd a diogelwch y cyhoedd neu gadwraeth bywyd gwyllt arall, mae dewisiadau arall gwell na rheolaeth farwol ar gael a dylid mynd ar eu trywydd.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i CNC yn benodol i ddyroddi trwyddedau sy'n caniatáu i adar gwyllt gael eu lladd neu eu cymryd, pan gymerir camau o'r fath i gyflawni un neu ragor o'r dibenion a ddiffinnir yn adran 16 o'r Ddeddf, a phan ydym wedi ein bodloni nad oes unrhyw ateb boddhaol arall mewn perthynas â'r dibenion hynny. Yn ein barn ni, ceir tystiolaeth sylweddol bod rhai adar gwyllt yn gallu achosi problemau, ac yn gwneud hynny, ac mewn

rhai sefyllfaoedd nid oes ffordd arall foddhaol o fynd i'r afael â'r problemau hynny heblaw rheolaeth farwol.

Felly byddwn yn parhau i weithredu system drwyddedu ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt.

Llyfryddiaeth

APHA (2020). Review of the evidence base for inclusion of avian species on General Licences GL34, GL35 and GL36 in England. Canolfan Reoli Bywyd Gwyllt Cenedlaethol, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Defra (2019). Use of general licences for the management of certain wild birds: Government response to the call for evidence, Gorffennaf 2019. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Defra (2021). Wild Birds: General Licence Review. Background and summary of survey responses, Mawrth 2021. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Harris, S.J., Massimino, D., Balmer, D.E., Eaton, M.A., Noble, D.G., Pearce-Higgins, J.W. Woodcock, P. a Gillings, S. (2020). The Breeding Bird Survey 2019. BTO Research Report 726. Ymddiriedolaeth Adareg Prydain.

Hughes, J., Spence, I.M. a Gillings, S. (2020). Estimating the sizes of breeding populations of birds in Wales. *Birds in Wales* 17:1.

Johnstone, I. & Bladwell, S. (2016). Birds of Conservation Concern in Wales 3: the population status of birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3-31.

Newson, S.E., Calladine, J. & Wernham, C. (2019). Literature review of the evidence base for inclusion of bird species listed on General Licences 1, 2 and 3. Research Report No.1136. Scottish Natural Heritage.

Noble, D., Gillings, S., a Taylor, R. C. (2022). Population estimates and spatial distribution for eight Welsh breeding bird species. Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (Rhif 611).

NRW (2021). Review of NRW's approach to regulating the shooting and trapping of wild birds: Report on the Call for Evidence. Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (Rhif 564).

Taylor, R.C., Noble, D., Calladine, J., Newson, S.E. and Bowgen, K.M. (2022). Assessment of the vulnerability to predation by carrion crow, magpie, jackdaw and jay of Red and Amber-listed Birds of Conservation Concern in Wales. Cyfres Adroddiadau Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (Rhif 599).

Atodiad 1. Egwyddorion ar gyfer penderfynu pryd mae trwyddedau cyffredinol yn briodol

Egwyddor 1: Mae angen amlwg a gwirioneddol i ganiatáu lladd neu gymryd y rhywogaeth o adar gwyllt o dan sylw, neu gymryd neu ddinistrio eu hwyau neu eu nythod, er mwyn hybu un neu ragor o'r dibenion a amlinellir yn adran 16 o'r Ddeddf.

Mae pob aderyn gwyllt wedi'i warchod o dan y gyfraith, a dim ond at ddibenion penodol y gellir caniatáu rhanddirymu o'r drefn warchod honno.

Egwyddor 2: Gellir disgwyl yn rhesymol y byddai caniatáu dulliau marwol o reoli adar o'r rhywogaeth o dan sylw o dan drwydded gyffredinol yn cyfrannu at ddatrys y broblem neu'n diwallu'r angen.

Hyd yn oed os bodlonir Egwyddor 1, rydym o'r farn na ddylid awdurdodi dulliau marwol o reoli adar gwyllt oni bai, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ei bod yn rhesymol ystyried y bydd gweithredu o'r fath yn cyfrannu at ddiwallu'r angen i ddatrys y broblem o dan sylw.

Egwyddor 3: Nid oes unrhyw atebion boddhaol a fyddai'n datrys y broblem honno neu'n mynd i'r afael â'r angen o dan sylw, heblaw dyroddi trwydded gyffredinol sy'n caniatáu lladd neu gymryd y rhywogaethau o adar gwyllt o dan sylw.

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i CNC awdurdodi rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion penodedig, ond dim ond pan ydym wedi ein bodloni nad oes ateb boddhaol arall at y dibenion hynny. Felly, mae angen inni fod wedi ein bodloni mai dyroddi trwydded gyffredinol yw'r unig ffordd foddhaol o fynd i'r afael â'r broblem neu o gyflawni'r diben o dan sylw, ac na ellir mynd i'r afael â'r diben yn foddhaol drwy ddefnyddio dulliau nad ydynt yn farwol yn unig, na thrwy ddyroddi trwyddedau penodol ar gais.

Egwyddor 4: Mae caniatáu dulliau marwol o reoli'r rhywogaeth o dan sylw o dan drwydded gyffredinol, yn hytrach na dim ond o dan drwyddedau penodol ar sail ceisiadau unigol, yn ymateb cymesur, o ystyried amllder, graddfa a difrifoldeb y broblem neu'r angen.

Mae trwyddedau cyffredinol yn briodol dim ond lle y byddai'n anymarferol neu'n anghymesur o feichus ar ddefnyddwyr, ac ar CNC, i reoleiddio lladd neu gymryd adar neu ddinistrio wyau a nythod at y diben hwnnw, drwy ei gwneud yn ofynnol cael trwyddedau penodol. Er enghraifft, gallai trwydded gyffredinol fod yn briodol pan fyddai CNC fel arall yn cael nifer fawr iawn o geisiadau am drwyddedau penodol, gyda phob un yn ceisio caniatâd i gyflawni'r un mathau o gamau gweithredu yn erbyn yr un rhywogaeth at yr un dibenion.

Egwyddor 5: Ni fydd caniatáu dulliau marwol o reoli rhywogaeth darged o dan drwydded gyffredinol yn peri dirywio ei statws cadwraeth.

Nid yw trwyddedau cyffredinol yn pennu terfynau ar nifer yr adar y gellir eu cymryd, ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr trwyddedau adrodd faint o adar y maent wedi'u cymryd o dan y drwydded. Er mwyn sicrhau nad yw caniatáu rheolaeth farwol rhywogaeth o dan drwydded gyffredinol yn peryglu ei statws cadwraeth, ceir amgylchiadau prin lle gellir cynnwys rhywogaeth ar drwydded gyffredinol. Rydym o'r farn mai'r unig rhywogaethau y mae'n addas eu cynnwys ar drwydded gyffredinol yw'r rhai nad ydynt o

bryder cadwraethol. Byddwn yn defnyddio rhestrau gwyrdd/oren/coch 'Adar o Bryder Cadwraethol' ar gyfer Cymru, i lywio ein hasesiad o ba rywogaethau targed o adar gwyllt sydd o bryder cadwraethol.

Egwyddor 6: Ni fydd unrhyw gamau a awdurdodir gan drwydded gyffredinol yn effeithio'n andwyol ar statws cadwraeth unrhyw rywogaeth ac eithrio'r rhywogaeth darged.

Yn ogystal ag ystyried effaith trwydded gyffredinol ar y rhywogaeth darged (o dan Egwyddor 5 uchod), ni fyddwn yn dyroddi trwydded gyffredinol os ydym o'r farn y byddai unrhyw gamau a gymerir o dan y drwydded honno yn peryglu cadwraeth rhywogaethau eraill. Mae'n bosibl y bydd angen cynnwys amodau mewn trwydded gyffredinol er mwyn bodloni'r egwyddor hon, gan gynnwys yr effaith bosibl ar safleoedd gwarchoddedig yn benodol.

Egwyddor 7: Gellir llunio'r drwydded gyffredinol mewn modd sy'n glir i bob defnyddiwr, yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol, ac yn orfodadwy.

Rydym o'r farn na ddylai CNC ddyroddi trwydded gyffredinol oni bai ein bod wedi ein bodloni y gellir nodi'n glir i bob defnyddiwr eu deall i ba ddiben neu ddibenion y gellir defnyddio'r drwydded ar eu cyfer, a'r amgylchiadau a'r amodau y gellir eu defnyddio oddi tanynt.

Atodiad 2. Safleoedd gwarchoddedig lle nad yw'r trwyddedau cyffredinol yn berthnasol

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Aberarth — Carreg Wylan
Aberdunant
Afon Cleddau Dwyreiniol/Eastern Cleddau River
Afon Cleddau Gorllewinol/Western Cleddau River
Afon Dyfrdwy (River Dee)
Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd
Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
Afon Irfon
Afon Llynfi
Afon Teifi
Afon Tywi
Afon Wysg (Isafonydd) / River Usk (Tributaries)
Allt y Gaer
Allt y Main Mine
Arfordir Abereiddi
Arfordir Gogleddol Penmon
Bach Howey Gorge
Beech Cottage, Waterwynch
Benarth Wood
Berwyn
Borth - Clarach
Bryn y Gwin Isaf
Bryngwyn Hall Stables and Coach House
Buckland Coach House & Ice House
Cadair Idris
Caeau Coed Mawr (Coedmawr Fields)
Carew Castle
Carreg y Llam
Castell y Waun a'i Barcdir/Chirk Castle and Parkland
Castlemartin Range
Cemlyn Bay
Ceunant a Thyrrau Trefgarn/Treffgarne Gorge and Tors
Chwarel Cambrian/Cambrian Quarry, Gwernymynydd
Cilcenni Dingle
Ciliau
Coed Aberdulas
Coed Aberedw
Coed y Crychydd
Coed y Gopa
Coedydd a Cheunant Rheidol (Rheidol Woods & Gorge)
Coedydd Beddgelert a Cheunant Aberglaslyn
Coedydd De Dyffryn Maentwrog
Coedydd Dyffryn Alwen

Coedydd Dyffryn Ffestiniog (Gogleddol)
Coedydd Nanmor
Colwyn Brook Marshes (North & South)
Cors Caron
Corsydd Llangloffan
Craig yr Aderyn (Bird's rock)
Creigiau Pen y graig
Creigiau Rhiwledyn/Little Ormes Head
Cwm Doethie - Mynydd Mallaen
Dale and South Marloes Coast
De Porth Sain Ffraidd / St Bride's Bay South
Dee Estuary / Aber Afon Dyfrdwy
Dolorgan Barn
Duhonw
Dyfi
Elenydd
Erwood Dingle
Eryri
Felin Llwyngwair
Ffynnon Beuno and Cae Gwyn Caves
Flat Holm
Foxwood
Ganllwyd
Garth-eryr
Glannau Aberdaron
Glannau Rhoscolyn
Glannau Ynys Gybi/ Holy Island Coast
Glascoed, Meifod
Glaslyn
Glyn Cywarch
Glynllifon
Gower Coast: Rhossili to Porteynon
Graig Fawr
Grassholm / Ynys Gwales
Gronant Dunes and Talacre Warren
Gwernydd Penbre
Gweunydd Esgairdraenllwyn (Esgairdraenllwyn Pastures)
Gweunydd Nant y Dernol
Gwlyptiroedd Casnewydd/Newport Wetlands
Hendre, Llangedwyn
Leighton Bat Roosts
Llanddulas Limestone and Gwrych Castle Wood
Llangovan Church
Migneint-Arenig-Dduallt
Milford Haven Waterway
Morfa Harlech
Mwyngloddfa Mynydd-Bach
Mwyngloddiau a Chreigiau Gwydyr
Mwyngloddiau Llanfrothen
Mwyngloddiau Wnion a Eglwys Sant Marc

Mynydd Llangatwg (Mynydd Llangattock)
Mynydd Penarfynnydd
Newborough Warren - Ynys Llanddwyn
Newton Court Stable Block
Orielson Stable Block and Cellars
Park House Outbuildings, Stackpole
Pen y Gogarth / Great Ormes Head
Pengelli Forest and Pant-teg Wood
Penmaenuchaf Hall
Penrice Stables and Underhill Cottage
Penygarnedd Mine
Plas Maenan
Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd Sant Tudwal
Puffin Island
Pwll-y-wrach
Ramsey / Ynys Dewi
Rhagnentydd Gwy Uchaf / Upper Wye Tributaries
Rhos Llaur Cwrt
River Ithon
River Lugg
River Teme
River Usk (Lower Usk)/Afon Wysg (Wysg Isaf)
River Usk (Upper Usk) / Afon Wysg (Wysg Uchaf)
River Wye (Lower Wye) / Afon Gwy (Gwy Isaf)
River Wye (Tributaries)/Afon Gwy (Isafonydd)
River Wye (Upper Wye) / Afon Gwy (Gwy Uchaf)
Rose Cottage, Llethrid
Ruperra Castle and Woodlands
Shotton Lagoons and Reedbeds
Siambre Ddu
Skokholm
Skomer Island and Middleholm
Slebech Stable Yard Loft, Cellars & Tunnels
St. David's Peninsula Coast
St. Margaret's Island
Stackpole
Stackpole Courtyard Flats and Walled Garden
The Offshore Islets of Pembrokeshire / Ynysoedd Glannau Penfro
The Skerries
Twyni Lacharn - Pentywyn / Laugharne - Pendine Burrows
Ty Bach Ystlumod
West Llangynog Slate Mine
Wye Valley
Ynys Enlli
Ynys Feurig
Ynysoedd y Gwylanod, Gwylan Islands
Ysbyty Bron y Garth
Yr Eifl

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn
Berwyn
Burry Inlet
Castlemartin Coast
Craig yr Aderyn (Bird's Rock)
Dyfi Estuary / Aber Dyfi
Elenydd-Mallaen
Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island
Glannau Ynys Gybi / Holy Island Coast
Grassholm
Liverpool Bay / Bae Lerpwl
Migneint-Arenig-Dduallt
Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal
Ramsey and St David's Peninsula Coast
Severn Estuary
Skomer, Skokholm and the seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro
The Dee Estuary
Traeth Lafan / Lavan Sands, Conway Bay
Ynys Seiriol / Puffin Island

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

Afon Eden-Cors Goch Trawsfynydd
Afon Gwyrfaï a Llyn Gwellyn
Afon Teifi / River Teifi
Afon Tywi / River Tywi
Afonydd Cleddau / Cleddau Rivers
Cardigan Bay / Bae Ceredigion
Carmarthen Bay and Estuaries / Bae Caerfyrddin ac Aberoedd
Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion / Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites
Cors Caron
Dee Estuary / Aber Dyfrydwy
Glynllifon
Limestone Coast of South West Wales / Afordir Calchfaen De Orllewin Cymr
Mwyngloddiau Fforest Gwydir / Gwydyr Forest Mines
North Pembrokeshire Woodlands / Coedydd Gogledd Sir Benfro
Pembrokeshire Bat Sites and Bosherton Lakes/ Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd
Bosherton
Pembrokeshire Marine / Sir Benfro Forol
Pen Llŷn ar Sarnau / Llyn Peninsula and the Sarnau
River Dee and Bala Lake / Afon Dyfrydwy a Llyn Tegid
River Usk / Afon Wysg
River Wye / Afon Gwy
Tanat and Vyrnwy Bat Sites / Safleoedd Ystlumod Tanat Ac Efyrnwy
Usk Bat Sites / Safleoedd Ystlumod Wysg
Wye Valley and Forest of Dean Bat Sites / Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy
Wye Valley Woodlands / Coetiroedd Dyffryn Gwy

Atodiad 3. Matrics rhywogaethau a diben ar gyfer y drwydded gyffredinol ar gyfer difrod difrifol

	Atal difrod difrifol i dda byw o ganlyniad i ymosodiad uniongyrchol	Atal niwed difrifol i fwydydd da byw	Atal difrod difrifol i gnydau, llyisiau neu ffrwythau	Atal lledaenu heintiau i dda byw neu i fwydydd da byw
Gŵydd Canada	Na	Na	le	Na
Colomen y graig	Na	le	le	le
Ysguthan	Na	Na	le	le
Pioden	le	Na	Na	le
Jac-y-do	Na	le	le	le
Brân dyddyn	le	le	Na	le

Atodiad 4. Egwyddorion ar gyfer trwyddedu cadwraeth

Ni ddiffinnir 'cadwraeth' yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ond fel yr awdurdod trwyddedu o dan adran 16 o'r Ddeddf, dylai fod gan CNC ddull clir a thryloyw o benderfynu pryd y gellir cyfiawnhau defnyddio dulliau marwol o reoli adar gwyllt ar sail cadwraeth, gan fod pob aderyn gwyllt wedi'i warchod o dan y Ddeddf.

Egwyddor 1: Dim ond rhywogaethau sydd o bryder cadwraethol y dylid bwriadu iddynt 'elwa' ar reolaeth farwol adar gwyllt

Y cwestiwn cyntaf y mae angen mynd i'r afael ag ef wrth ystyried trwyddedu rheoli adar gwyllt at ddibenion cadwraeth yw: Pa rywogaeth, neu pa boblogaeth benodol o rywogaeth, y bwriedir iddynt elwa ar y weithred drwyddedig? Yn fwy penodol, mae angen inni bennu bod angen ymyrraeth o'r fath ar y rhywogaeth buddiolwr neu'r boblogaeth ohoni. Os oes gan rywogaeth aderyn, anifail neu blanhigyn arall statws cadwraeth ffafriol neu os nad yw o bryder cadwraethol fel arall, er gwaethaf y posibilrwydd o gael ei ysglyfaethu neu fod yn destun effeithiau eraill gan un neu ragor o rywogaethau adar gwyllt, yna fel egwyddor gyffredinol nid ydym yn ystyried bod cyfiawnhad dros ymyrryd a rheoli adar gwyllt ar sail cadwraeth.

Felly, dylai rhywogaeth sy'n cael budd o unrhyw drwyddedau rheoli adar gwyllt a ddyroddir at ddibenion cadwraeth o dan y Ddeddf fod yn un o'r canlynol:

- Os yw'n rhywogaeth aderyn gwyllt, dylai fod ar restr goch neu oren Adar sy'n Bryder Cadwraethol i Gymru. Nid yw rheoli adar gwyllt at ddiben gwarchod rhywogaeth ar restr werdd Adar sy'n Bryder Cadwraethol yn cael ei ddiystyru o ran egwyddor, er enghraifft os yw rhywogaeth ar y rhestr werdd yn dirywio'n sylweddol o fewn cylch chwe blynedd diweddariadau Adar sy'n Bryder Cadwraethol. Fodd bynnag, byddai angen nodi'n llawn y cyfiawnhad cadwraeth dros unrhyw gynnig i reoli adar gwyllt at ddiben gwarchod rhywogaethau ar y rhestr werdd yn unig, mewn cais am drwydded benodol.
- Os yw'n rhywogaeth nad yw'n aderyn gwyllt, dylai fod yn amlwg ei bod o bryder cadwraethol. Oherwydd bod yr holl drwyddedau a ddyroddir i'r diben hwn yn drwyddedau penodol, mae angen i'r cais am drwydded ddangos bod diben cadwraeth gwirioneddol sy'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio dulliau marwol o reoli adar gwyllt.
- Gallai unrhyw rywogaeth sy'n rhan o un o'r nodweddion y mae safle gwarchodedig wedi'i ddynodi ar ei gyfer, hefyd fod yn fuddiolwr trwydded ar gyfer rheoli adar gwyllt, gan y gallai camau gweithredu o'r fath fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn hybu amcanion cadwraeth y safle gwarchodedig o dan sylw. Mae safleoedd gwarchodedig yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) a gwlyptiroedd dynodedig o bwysigrwydd rhyngwladol (safleoedd Ramsar).

Egwyddor 2: Ni ddylai rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth ddigwydd oni bai y bernir bod camau o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer cynnal neu wella statws cadwraeth rhywogaeth sy'n elwa

Mae adar gwyllt yng Nghymru, ac yn wir adar gwyllt yn unrhyw le, yn bodoli fel rhan o ecosystem, sy'n cynnwys planhigion ac anifeiliaid ynghyd â'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt. Mae ysglyfaethu gan rai rhywogaethau ar rywogaethau eraill yn rhan naturiol a hanfodol o weithrediad iach ecosystemau.

Felly, nid yw'r ffaith bod un rhywogaeth o aderyn gwyllt yn ysglyfaethu ar rywogaeth aderyn neu anifail arall yn golygu y dylid rheoli'r rhywogaeth o ysglyfaethwr. Ni ddylid trwyddedu ymyrraeth ar ffurf rheoli adar gwyllt oni bai y bernir ei fod yn angenrheidiol er mwyn gwella statws cadwraeth un neu fwy o rywogaethau buddiolwyr (er enghraifft i gynyddu eu niferoedd neu eu maint), neu i atal dirywiad ym mhoblogaeth y rhywogaeth y bwriedir dwyn buddion.

Egwyddor 3: Gellir diffinio'r budd cadwraeth a fwriedir o ganlyniad i reolaeth farwol adar gwyllt ar raddfeydd daearyddol gwahanol

Gall statws cadwraeth rhywogaeth sy'n cael budd o drwydded ar gyfer rheoli adar gwyllt at ddibenion cadwraeth gael ei ystyried yn gyfreithlon ar raddfeydd gofodol gwahanol. Er enghraifft, mewn egwyddor, gall budd i boblogaeth leol fod yn ddiben cadwraeth cyfreithlon sy'n cyfiawnhau rheoli adar gwyllt, yn ogystal â gwella statws cadwraeth rhywogaeth a ystyrir ar raddfa genedlaethol neu ryngwladol. Yn yr un modd, gall gwella statws cadwraeth nodwedd rhywogaeth ddynodedig safle gwarchodedig unigol, mewn egwyddor, fod yn ddiben cadwraeth cyfreithlon sy'n cyfiawnhau rheoli adar gwyllt.

Egwyddor 4: Dylai fod digon o dystiolaeth y bydd defnyddio dulliau marwol o reoli rhywogaeth darged yn debygol o hybu diben cadwraeth

Mae'r rhyngweithio rhwng rhywogaethau yn gymhleth, ac mae ein gwybodaeth am y berthynas rhwng ysglyfaethwyr a'r ysglyfaeth yn amherffaith, gan gynnwys rhywogaethau adar gwyllt sydd wedi'u hastudio'n gymharol dda. Mae'n anodd deall effeithiau rhywogaeth ysglyfaethwr unigol ar rywogaeth benodol o ysglyfaeth, oherwydd bod y rhywogaethau sy'n cael ei ysglyfaethu yn wynebu amrywiaeth o bwysau eraill yn aml, gan gynnwys ysglyfaethu gan rywogaethau eraill, cystadleuaeth â rhywogaethau eraill, gwahanol fathau o aflonyddwch o ganlyniad i weithgareddau dynol a newidiadau yn ansawdd ei chynefin.

Yn erbyn y cefndir hwn rydym wedi ystyried pa lefel briodol o dystiolaeth y dylem ei defnyddio wrth benderfynu p'un a fydd rheolaeth farwol adar gwyllt yn hybu'r diben cadwraeth mewn gwirionedd. Nid ydym o'r farn y dylai rheolaeth adar gwyllt gael ei drwyddedu dim ond pan fo'n bosibl 'profi' y bydd rheolaeth farwol rhywogaethau targed A yn arwain at welliant cyfatebol yn statws cadwraeth rhywogaeth y buddiolwr B. Credwn ei bod yn anymarferol gosod safon mor uchel o dystiolaeth ac y byddai'n ei gwneud yn anodd, os nad yn amhosibl, dyroddi trwyddedau at ddibenion cadwraeth.

Rydym o'r farn y dylai fod yn rhesymol dod i'r casgliad bod rheoli rhywogaeth arbennig o adar gwyllt yn debygol o gyfrannu, ar ôl pwysu a mesur y dystiolaeth sydd ar gael, naill ai at wella statws cadwraeth rhywogaeth arall, yn lleol neu'n genedlaethol, (a ddylai, yn dilyn egwyddor 1 uchod, fod yn rhywogaeth o bryder cadwraethol), neu'n debygol o gyfrannu at gyflawni amcanion cadwraeth un neu ragor o safleoedd gwarchodedig.

Egwyddor 5: Mae rheolaeth farwol adar gwyllt yn fwy tebygol o ddwyn budd cadwraeth os caiff ei defnyddio ochr yn ochr â mesurau cadwraeth eraill

Rydym o'r farn, pryd bynnag y bo modd, y dylid ystyried rheoli adar gwyllt fel rhan o'r ateb i fynd i'r afael â diben cadwraeth diffiniedig, ochr yn ochr â delio â ffactorau eraill a allai fod yn effeithio ar y rhywogaethau buddiolwyr arfaethedig, gan gynnwys ysglyfaethwyr eraill, pwysau eraill (nad ydynt yn ysglyfaethu) a rheoli cynefin.

Atodiad 5. Rhywogaethau sydd, yn ein barn ni, yn agored i gael eu hysglyfaethu gan frain tyddyn yng Nghymru

Wedi'i addasu o: Taylor, R.C., Noble, D., Calladine, J., Newson, S.E. a Bowgen, K.M. (2022). Assessment of the vulnerability to predation by carrion crow, magpie, jackdaw and jay of Red and Amber-listed Birds of Conservation Concern in Wales. Cyfres Adroddiadau Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (Rhif 599).

Rhestr goch		Rhestr oren	
Enw cyffredin	Enw gwyddonol	Enw cyffredin	Enw gwyddonol
1. Môr-wennol y gogledd	<i>Sterna paradise</i>	1. Titw barfog	<i>Panurus biarmicus</i>
2. Grugiar ddu	<i>Lyurus tetrax</i>	2. Aderyn y bwn	<i>Botaurus stellaris</i>
3. Gwylan benddu	<i>Chroicocephalus ridibundus</i>	3. Gwylog ddu	<i>Cephus grylle</i>
4. Coch y berllan	<i>Pyrrhula pyrrhula</i>	4. Brân goesgoch	<i>Pyrrhocorax pyrrhocorax</i>
5. Y gog	<i>Cuculus canorus</i>	5. Môr-wennol	<i>Sterna hirundo</i>
6. Gylfinir	<i>Numenius arquata</i>	6. Mulfran	<i>Phalacrocorax carbo</i>
7. Troellwr bach	<i>Locustella naevia</i>	7. Telor Dartford	<i>Sylvia undata</i>
8. Gwylan gefnddu fwyaf	<i>Larus marinus</i>	8. Hwyaden fwythblu	<i>Somateria mollissima</i>
9. Petrisen	<i>Perdix perdix</i>	9. Aderyn drycin y graig	<i>Fulmarus glacialis</i>
10. Gwylan y penwaig	<i>Larus argentatus</i>	10. Hugan	<i>Morus bassanus</i>
11. Gwylan Goesddu	<i>Rissa tridactyla</i>	11. Dryw eurban	<i>Regulus regulus</i>
12. Cornchwigen	<i>Vanellus vanellus</i>	12. Llinos werdd	<i>Chloris chloris</i>
13. Llinos	<i>Carduelis cannabina</i>	13. Crëyr glas	<i>Ardea cinerea</i>
14. Pibydd coesgoch	<i>Tringa tetanus</i>	14. Siglen lwyd	<i>Motacilla cinerea</i>
15. Mwyalchen y mynydd	<i>Turdus torquatus</i>	15. Gwylog	<i>Uria aalge</i>
16. Cwtiad torchog	<i>Charadrius hiaticula</i>	16. Gylfinbraff	<i>Coccothrauste coccothraustes</i>
17. Môr-wennol wridog	<i>Sterna dougallii</i>	17. Boda'r mêl	<i>Pernis apivorus</i>
18. Gwybedog mannog	<i>Muscicapa striata</i>	18. Gwylan gefnddu leiaf	<i>Larus fuscus</i>
19. Turtur	<i>Streptopelia turtur</i>	19. Llinos bengoch fechan	<i>Acanthis cabaret</i>
20. Llwydfron	<i>Sylvia communis</i>	20. Tylluan gorniog	<i>Asio otus</i>
21. Cyfflog	<i>Scolopax rusticola</i>	21. Corhedydd y waun	<i>Anthus pratensis</i>
22. Siglen felen	<i>Motacilla flava flavissima</i>	22. Brych y coed	<i>Turdus viscivorus</i>
23. Bras melyn	<i>Emberiza citronella</i>	23. Gwalch y pysgod	<i>Pandion haliaetus</i>
		24. Barcud coch	<i>Milvus milvus</i>
		25. Bras y cyrs	<i>Emberiza schoeniclus</i>
		26. Môr-wennol bigddu	<i>Thalasseus sandvicensis</i>

27. Mulfran werdd	<i>Phalacrocorax aristotelis</i>
28. Ehedydd	<i>Alauda arvensis</i>
29. Bronfraith	<i>Turdus philomelos</i>
30. Corhedydd y coed	<i>Anthus trivialis</i>